



At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 22 Gorffennaf 2013

Rhif Union: 01824706141

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 30 GORFFENNAF 2013** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU'R RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dylai Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu gydag unrhyw fater a nodwyd y dylid ei ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryg o dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 26)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd 25 Mehefin 2013 (copi'n amgaeedig).

5 GRŴP TASG A GORFFEN YR ADOLYGIAD BWYD (Tudalennau 27 - 42)

Ystyried adroddiad gan y Cyng. David Smith, Aelod Arweiniol Parthau Cyhoeddus, (copi'n amgaeedig) ynglŷn â gwaith Grŵp Tasg a Gorffen yr Adolygiad Bwyd yn dilyn y sgandal cig ceffyl. Mae'r adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r argymhellion.

6 CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH (Tudalennau 43 - 56)

Ystyried adroddiad, **ynghyd â'r atodiadau cyfrinachol**, gan y Cyng. David Smith, Aelod Arweiniol Parthau Cyhoeddus, (copi'n amgaeedig) yn gofyn i'r Cabinet gefnogi gorchymyn prynu gorfodol a gwneud cynnig i brynu'r safle.

7 DATBLYGU 'CYNGOR ARDDERCHOG, SY'N AGOS AT Y GYMUNED'
(Tudalennau 57 - 66)

Ystyried adroddiad gan y Cyng. Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau, (copi'n amgaeedig) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo dull y Cyngor i ddatblygu'r thema o Ddod â'r Cyngor yn Nes at y Gymuned.

8 DIOGELU OEDOLION (Tudalennau 67 - 88)

Ystyried adroddiad gan y Cyng. Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant, (copi'n amgaeedig) yn gofyn i'r Cabinet gytuno â'r newidiadau i drefniadau presennol diogelu oedolion.

9 FFURFIO TÎM CEFNOGI TEULUOEDD INTEGREDIG (Tudalennau 89 - 92)

Ystyried adroddiad gan y Cyng. Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant, (copi'n amgaeedig) yn gofyn i'r Cabinet gytuno i ffurfio Tîm Cefnogi Teuluoedd Integredig yn Sir Ddinbych.

10 AROLWG LLETY SWYDDFA GOGLEDD CYMRU (Tudalennau 93 - 114)

Ystyried adroddiad gan y Cyng. Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau, (copi'n amgaeedig) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cynigion rhesymoliad swyddfeydd ar gyfer gogledd Sir Ddinbych ynghyd â fformwleiddiad cynlluniau datblygu tymor hir.

11 ADRODDIAD CYLLID (Tudalennau 115 - 132)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

12 RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL Y CABINET (Tudalennau 133 - 138)

Derbyn Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Cabinet a nodi ei chynnwys.

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

13 AILDDATBLYGU 21 -24 RHODFA'R GORLLEWIN, Y RHYL (Tudalennau 139 - 160)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cyng. Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau, (copi'n amgaaedig) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r telerau terfynol gyda'r Partner Datblygu i ddatblygu eiddo yn Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl.

14 CYNLLUN RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD CORWEN - GWOBRWYO CONTRACT (Tudalennau 161 - 164)

Ystyried adroddiad gan y Cyng. David Smith, Aelod Arweiniol Parthau Cyhoeddus, (cylchredwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo gwobrwo'r contract ar gyfer Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Corwen.

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Hugh Evans
Julian Thompson-Hill
Eryl Williams
Bobby Feeley

Hugh Irving
Huw Jones
Barbara Smith
David Smith

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2013 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghr. Hugh Evans, Arweinydd; Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau; Huw Jones, Aelod Arweiniol Twristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid; Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad; David Smith, Aelod Arweiniol Parthau Cyhoeddus; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau ac Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg.

Arsylwyr: Y Cynghr. J.R. Bartley, J. Butterfield, J. Chamberlain-Jones, M.L.I. Davies, M.L. Holland, H. Hilditch-Roberts, T.M. Parry, D. Simmons a H.O. Williams.

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cwsmeriaid (HW), Moderneiddio a Lles (SE), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW), Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes (PG), Pennaeth Addysg (KE), Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad (AS), Prif Gyfrifydd (RW), Rheolwr Cynllunio Addysg ac Adnoddau (CW), Rheolwr Rhaglen Cwsmeriaid ac Addysg (JC), Rheolwr Polisi Cynllunio (AL), Rheolwr Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen (TB), Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch (VR), Rheolwr Cyffredinol: Gofal Iechyd Cefndy (DLH) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Bobby Feeley

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganodd unrhyw Aelod unrhyw gysylltiad personol na rhagfarnllyd ag unrhyw fusnes oedd am gael ei ystyried yn y cyfarfod.

3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw eitem y dylid, ym marn y Cadeirydd, ei hystyried yn y cyfarfod fel mater bryd dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ddydd Mawrth 14 Mai 2013.

PENDERFYNWYD:- cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 14 Mai 2013, fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.

5 ADOLYGIAD YSGOLION CYNRADD ARDAL RHUTHUN

Cyflwynodd y Cyng. Eryl Williams adroddiad, a gylchredwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn cynnwys canfyddiadau'r arolwg diweddar ar ddarpariaeth ysgolion cynradd yn ardal Rhuthun ac argymhellion arfaethedig i'w hystyried er mwyn newid y ddarpariaeth bresennol.

Amlinellodd y Cyng. Eryl Williams y fframwaith ariannu a'r broses strwythuredig a fabwysiadodd y Cyngor yn ogystal â pherthnasedd polisiâu cenedlaethol ar y broses benderfynu ar gyfer ariannu gwelliannau i adeiladau addysg y Sir. Cyfeiriwyd at raglen fuddsoddi gynhwysfawr Sir Ddinbych, y cais i Ysgolion yr 21ain Ganrif a phwysigrwydd ansawdd adeiladau addysg yn y broses ddysgu. Eglurodd y byddai ceisiadau a gyflwynir i Lywodraeth Cymru am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol yn cael eu dylanwadu gan Sir Ddinbych a'r bwriad i fynd i'r afael â llefydd dros ben mewn ysgolion. Pwysleisiodd hefyd y gallai'r arian yma fod dan fygythiad os nad yw'r Sir yn mynd i'r afael â llefydd dros ben.

Pwysleisiodd y Cyng. Williams y byddai'n ymdrechu i sicrhau gwelliannau parhaus yn Sir Ddinbych drwy ddarparu cyfleusterau addysg gwell a fydd yn creu cynladwyedd ac yn diogelu natur yr ardal. Cyfeiriodd at nifer y llefydd dros ben yn ardal Rhuthun a'r cynigion gerbron y Cabinet i fynd i'r afael â'r mater. Eglurwyd bod y Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar ddyfodol darpariaeth gynradd yn ardal Rhuthun. Yn ystod yr arolwg cynhaliwyd ymgynghoriad eang ag 11 ysgol a oedd yn cynnwys cyfarfodydd â rhieni, staff a llywodraethwyr. Amlygwyd sawl mater gan gynnwys y ddibyniaeth ar ystafelloedd dosbarth symudol, cyflwr gwael ysgolion a nifer y llefydd dros ben yn yr ardal (sy'n fwy na'r cyfartaledd).

Mae canfyddiadau'r arolwg anffurfiol wedi eu cynnwys yn Atodiad 1 ac mae nifer y llefydd mewn ysgolion ar hyn o bryd a nifer y disgyblion (PLASC mis Ionawr, 2013) wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ynghyd â chanfyddiadau'r ymgynghoriad anffurfiol a'r ffordd ymlaen sy'n cynnwys y cynigion canlynol:-

Mae argymhellion wedi eu cynnig a'u grwpio gyda'i gilydd, yn dibynnu ar eu heffaith ar ysgolion yr ardal, i ganiatáu darpariaeth gynaliadwy tymor hir yn ardal Rhuthun yn dibynnu ar adnoddau ariannol. Crynhodd Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg y cynigion sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, codwyd sawl mater a darparwyd yr ymatebion fel y ganlyn:-

Cynnig 1 – Creu Ysgol Ardal newydd ar gyfer cymunedau Clocaenog a Chyffylliog (Atodiad 2).

Bu i'r arolwg ganfod y galw i gadw darpariaeth addysg yn yr ardaloedd gwledig i'r gorllewin o Ruthun. Ar hyn o bryd mae 55 disgybl llawn amser yn mynychu'r ddwy ysgol. Mae galw mawr am lefydd yn Ysgol Clocaenog ond mae'r niferoedd yn Ysgol Cyffylliog yn gostwng. Gan nad yw'r ddwy ysgol yn addas ar gyfer codi estyniad, argymhellir bod ysgol ardal newydd yn cael ei chreu ar gyfer y cymunedau ar y safleoedd presennol. Byddai creu'r ysgol ardal yn cael ei wneud yn raddol a byddai ymrwymiad tymor hir i greu un ysgol ar un safle gyda chyswilt posib â chyfleusterau

cymunedol. Awgrymwyd y dylai'r cam cyntaf gael ei roi ar waith ddechrau mis Medi 2014.

Codwyd sawl pryder gan y Cyng. Huw Jones a darparwyd yr ymatebion canlynol:-

- Atodiad 2, 15.5. – Cyfeiriodd Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg at Bolisi Cludiant y Cyngor ac eglurodd y byddai trefniadau cludiant ar gyfer y disgyblion presennol yn cael eu harchwilio fel rhan o'r adrefnu.
- Mewn ymateb i'r pryderon ynglŷn â chyflwr y ffordd rhwng Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog, eglurodd y Cyng. Williams bod y ffordd o Glocaenog i Fontuchel yn rhan o'r prif lwybr graenu.
- Cadarnhaodd Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg y byddai Sir Ddinbych yn ymgynghori ag awdurdodiadau cyfagos ar y cynigion.
- O ran nifer y llefydd dros ben a darpariaeth y dyfodol, eglurwyd y byddai dwy gam gweithredu. Byddai'r can cyntaf yn golygu creu ysgol newydd ar y ddau safle a byddai'r ail gam yn golygu ystyried y safle gorau ar gyfer ysgol newydd, yn amodol ar arian. Amlinellodd Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg ddarpariaeth Cyfnod Allweddol 1 a 2 yn y dyfodol.

Cynnig 2 – Cau Ysgol Llanbedr a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Borthyn, Rhuthun, yn dibynnu ar ddewis y rhieni (Atodiad 3)

Mae'r Corff Llywodraethu ac eraill wedi mynegi pryderon na ddylid ystyried y lleihad yn nifer y disgyblion yn Ysgol Llanbedr ar ei ben ei hun wrth ystyried dyfodol yr ysgol. Wrth ystyried y ddarpariaeth o fewn tref Rhuthun a'i chymuned agos, ymddengys bod gorddarpariaeth o lefydd cyfrwng Saesneg. Mae Ysgol Llanbedr ac Ysgol Borthyn yn Ysgolion Saesneg a Reolir yn Wirfoddol gan yr Eglwys yng Nghymru. Canfuwyd wrth ddadansoddi'r galw mai 20 disgybl yn unig o fewn y dalgylch naturiol yr ysgol sy'n dewis addysg cyfrwng Saesneg. Ar hyn o bryd mae ysgol eglwys cyfrwng Saesneg arall yn agos at yr ysgol hon, sef Ysgol Borthyn, ac mae ysgolion Gellifor a Stryd y Rhos yn agos iawn hefyd. O ystyried yr angen i leihau'r fath ddarpariaeth, argymhellir y dylid cynnal ymgynghoriad ar gau Ysgol Llanbedr ar ddiwedd blwyddyn academiaidd 2013/2014.

Sicrhaodd yr Arweinydd y bydd yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan rieni ac athrawon Ysgol Llanbedr yn nodi materion a phryderon yn cael ei hystyried os cytunir i gynnal ymgynghoriad ar y cynigion. Cadarnhaodd Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg y bydd yna lefydd ar gael mewn ysgolion ffydd eraill yn yr ardal e.e. Ysgol Borthyn, Rhuthun. Teimlwyd y byddai cynyddu darpariaeth Ysgol Borthyn yn sicrhau dewis ac yn cryfhau darpariaeth ffydd gan ei gwneud yn fwy cynaliadwy. Eglurodd y swyddog y byddai gwaith ac ymgynghori pellach yn cael ei wneud ac y byddai hynny'n ystyried ffigyrau amcanol ar gyfer y galw yn y dyfodol.

Cododd y Cyng. Huw Williams y materion canlynol a darparwyd ymateb:-

- Cytunwyd bod angen gwirio cywirdeb ffigyrau amcanol Ysgol Llanbedr ac Ysgol Borthyn, ynghyd â ffigyrau ar gyfer darpariaeth cyn-ysgol, a'u cadarnhau cyn cynnal trafodaethau pellach.
- Mae'r ysgol wedi gwella ers y problemau a gafwyd yn y gorffennol a soniwyd am gyfleusterau a lleoliad gwych yr ysgol.

- Cyfeiriodd y Cyng. Williams at ddewis y rheini ac at golli darpariaeth ffydd yn yr ardal. Awgrymodd y dylid ystyried cadw Ysgol Llanbedr ar gyfer darparu addysg ffydd yn ardal Rhuthun.
- Fe ddylai'r ddarpariaeth addysg ddiwallu anghenion y 71 cartref newydd sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer ardal Llanbedr.

Cynnig 3 – Ardal Tref Rhuthun (Atodiad 4)

Eglurodd Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg bod yna gefnogaeth gref i gadw darpariaeth y tair ysgol yn y dref ond dywedodd bod anawsterau tymor hir ynghlwm wrth safleoedd Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Pen Barras. Mae mynediad y safle yn bryder o ran iechyd a diogelwch ac mae'r safle yn dibynnu ar ystafelloedd dosbarth symudol. Mae arolwg ac asesiad o addasrwydd y safle wedi awgrymu y dylai'r Cyngor weld pa mor addas yw adeiladu ysgol newydd yn safle Glasdir. Mae astudiaeth ddichonolrwydd wedi awgrymu y gall y tir sydd wedi ei glustnodi yn y CDLI ar gyfer ysgol newydd ddiwallu anghenion disgyblion Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Pen Barras. Awgrymwyd y dylid ystyried y dewis yma cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

Mae dyfodol Ysgol Borthyn ac Ysgol Rhewl yn gysylltiedig â'r cynnig hwn. Mae'r angen i sicrhau amrywiaeth trwy ddarparu ysgolion ffydd, os yw'r argymhelliad i gau Ysgol Llanbedr yn mynd rhagddo, wedi arwain at yr argymhelliad i gadw Ysgol Borthyn. Mae arolwg safle Ysgol Rhewl wedi amlygu'r gallu i ehangu'r ddarpariaeth bresennol. Fodd bynnag, byddai angen ystyried buddsoddi yn yr adeiladau presennol.

Gan y byddai'n anodd cyfiawnhau buddsoddi llawer o arian ar safle Ysgol Rhewl, pe bai ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle Glasdir, awgrymwyd y dylid ystyried dyfodol yr ysgol ar y cyd â datblygiad Glasdir. Byddai'r dewisiadau yn cynnwys cau Ysgol Rhewl ar ôl cwblhau'r ysgol/ysgolion newydd. Bydd unrhyw gynnig i gau Ysgol Rhewl yn gofyn am ymgynghoriad ffurfiol a chyhoeddi rhybudd statudol. Os yw Ysgol Stryd y Rhos a/neu Ysgol Pen Barras yn symud i safle Glasdir, ac nad ydyn nhw'n newid llawer mewn maint, yna ni fyddai angen cyhoeddi cynigion statudol gan y byddai'r ysgol yn symud i safle llai nag un filltir i ffwrdd. Cafwyd cadarnhad bod cynigion i ddarparu dwy ysgol newydd gyda'u penaethiaid eu hunain ac y byddan nhw, gyda Chadeiryddion y Llywodraethwyr, yn rhan o'r broses ddylunio.

Cododd y Cyng. David Smith y materion canlynol:-

- Mynegodd ei gefnogaeth at ddarparu ysgol newydd i fynd i'r afael â'r problemau sydd wedi codi dros y blynyddoedd. Fodd bynnag, gofynnodd am sicrhau bod unrhyw broblem yn ymwneud â thraffig yn sgil adeiladu ysgol newydd, gan gynnwys materion parcio, yn cael eu hystyried a'u datrys ar y cychwyn cyntaf.
- Cefnogodd y Cyng. Smith y cynnig i gadw Ysgol Borthyn fel ysgol ffydd.
- Mae angen sicrhau nad yw unrhyw safle sy'n cael ei ddefnyddio i adeiladu ysgol newydd yng Nglasdir yn agored i lifogydd ac mae angen gwybod beth yw dewis rhieni dalgylch Ysgol Rhewl pe bai ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yng Nglasdir. Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg y byddai unrhyw safle posib yn cael ei asesu ac y byddai adroddiad ar lifogydd yn cael ei ddarparu.

Soniodd y Cyng. Merfyn Parry am bryderon Corff Llywodraethu Ysgol Rhewl ynglŷn â'r ffaith y gall yr ansicrwydd ynghylch dyfodol yr ysgol gael effaith andwyol ar ei dyfodol, yn arbennig o ran nifer y darpar ddisgyblion. Eglurodd y swyddogion y byddai'n anghywir hepgor Ysgol Rhewl o'r astudiaeth ddichonolrwydd gan y gallai'r cynigion effeithio ar yr ysgol, a phwysleisiwyd bod angen bod yn agored a chlir ynglŷn â'r amcan terfynol. Cadarnhawyd nad yw'r ysgol ar hyn o bryd yn rhan o'r cynnig ffurfiol. Fodd bynnag, byddai swyddogion yn cydweithio gyda'r ysgol i sicrhau nad yw darpariaeth addysg y disgyblion yn cael ei rhoi mewn perygl. Mewn ymateb i bryderon y Cyng. Parry ynglŷn â chategori dwyieithog yr ysgol, cadarnhaodd y Pennaeth Addysg y byddai ymgynghoriad ffurfiol pellach, a fyddai'n cynnwys y rheini, yn cael ei gynnal i edrych ar alw ac anghenion dwyieithrwydd. Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid at yr argymhelliad o gynnal "astudiaeth ddichonolrwydd pellach cyn cadarnhau unrhyw argymhelliad ffurfiol ar gyfer Ysgol Stryd y Rhos, Ysgol Borthyn, Ysgol Pen Barras ac Ysgol Rhewl" a phwysleisiodd nad yw'r broses a awgrymir yn ymgynghoriad ffurfiol.

Datganodd y Cyng. Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol yn yr eitem hon gan ei fod yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Pen Barras. Croesawodd y cynigion ar gyfer cadw Ysgol Pen Barras, Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Borthyn a soniodd am bwysigrwydd cynnwys y Cyrff Llywodraethu ac uwch dimau'r ysgolion yn y broses gynllunio ar gyfer datblygu'r safle arfaethedig ar gyfer yr ysgol newydd. Soniodd hefyd am yr angen i edrych yn ofalus ar effaith unrhyw ysgol newydd ar Ysgol Borthyn ac Ysgol Rhewl ac i sicrhau bod safon cyfleusterau Ysgol Borthyn yn cael eu cadw. Cadarnhaodd Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg y byddai ansawdd y ddarpariaeth yn cael lle blaenllaw yn yr astudiaeth ddichonolrwydd.

Cynnig 4 – Ffederasiwn Arfaethedig Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Pentrecelyn (Atodiad 5)

Mae yna gefnogaeth gref o blaid cadw'r ddarpariaeth yn y cymunedau o amgylch Llanfair DC a Phentrecelyn. Mae angen buddsoddi yng nghyfleusterau Ysgol Llanfair DC ac mae llawer yn cytuno nad yw'r ysgol bresennol yn addas ar gyfer ei phwrpas. Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw Ysgol Pentrecelyn yn y gymuned ynghyd â'r gwahaniaeth rhwng darparu addysg cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog. Wrth ystyried anghenion yr ardal ehangach a'r angen am fuddsoddiad sylweddol, awgrymwyd cymryd camau gweithredu graddol.

Byddai'r cam cyntaf yn golygu cadw'r ddwy ysgol ac argymhell bod y Cyrff Llywodraethu yn ffurfio ffederasiwn. Byddai Sir Ddinbych yn gofyn am gytundeb mewn egwyddor i ddatblygu hyn erbyn mis Ionawr 2014 gyda'r golwg o ddechrau'r ffederasiwn newydd ym mis Medi 2014. Byddai'r cynlluniau tymor hir, sy'n rhan o gynigion Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn golygu symud tuag at greu ysgol newydd ar gyfer cymunedau Pentrecelyn a Llanfair DC. Byddai creu ysgol ardal newydd yn gofyn am ymgynghoriad ffurfiol ar yr adeg gywir.

Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai'n cefnogi'r dewis a fyddai'n darparu'r budd mwyaf i ddisgyblion yr ardal. O ran ffedereiddio'r ddwy ysgol, ac o ran y ffaith bod Ysgol Llanfair yn ysgol ffydd, eglurodd y Pennaeth Addysg y byddai'r Tîm Arwain a'r Corff Llywodraethu yn edrych ar ethos a gwerthoedd moesol yr ysgolion, ac

eglurodd bod ethos yr ysgolion yn edrych yn debyg iawn. Ymatebodd y Pennaeth Addysg i'r cwestiynau a ofynnwyd gan yr Aelodau ac eglurodd sut ddarpariaeth fydd darpariaeth Cyfnod Allweddol 1 a 2 yn y dyfodol, ac amlinellodd y rhesymau dros weithredu dulliau gwahanol mewn ardaloedd eraill. Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid y gellir gweithredu'r cynnig i greu ysgol ardal ar gyfer Clocaenog a Chyffylliog yn gynt oherwydd graddfa'r datblygiad.

Cynnig 5 - Cefnogaeth ar gyfer Ffederasiwn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor (Atodiad 5)

Awgrymwyd y dylid cynnwys Ysgol Bryn Clwyd yn arolwg ardal Rhuthun oherwydd bod yr ysgol hon ac Ysgol Gellifor yn cael eu cydarwain a'u cydreoli yn dilyn ffurfio ffederasiwn yn 2011.

Mae Ysgol Gellifor yn ysgol boblogaidd, heb lefydd gwag, sy'n denu disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch naturiol. O ran trefniadau'r ffederasiwn, mae canran y llefydd dros ben yn Ysgol Gellifor yn 4% a'r canran yn Ysgol Bryn Clwyd yn 67.6% ac mae hynny'n effeithio ar gynladwyedd tymor hir y ffederasiwn.

Cwestiynwyd categorïau iaith y ddwy ysgol. Mae'r ddwy ysgol yn ysgolion categori 5 ond byddai'r continwmm iaith Gymraeg yn gweld cynnydd yn narpariaeth Gymraeg yr ysgolion fel ymateb i safbwyntiau'r budd-ddeiliaid.

Roedd y Llywodraethwyr wedi gofyn am sicrwydd ynghylch dyfodol Ysgol Bryn Clwyd yn sgil yr arolwg ac maent yn dymuno gweld dyfodol tymor hir yr ysgol yn cael ei gysylltu ag unrhyw gynnydd sy'n deillio o arolwg Rhuthun. Mae'r Cyngor wedi cydnabod hyn er mwyn osgoi unrhyw ansicrwydd ynglŷn â'r ffederasiwn. Argymhellwyd y dylid parhau'r â'r trefniadau presennol yn amodol ar gytundeb i edrych ar gategori iaith Ysgol Bryn Clwyd. Byddai angen mynd i'r afael â nifer anghytwys y disgyblion yn y ddwy ysgol drwy edrych ar y trefniadau derbyn.

Cyfeiriodd y Cyng. Huw Jones at y cynnig i gadw Ysgol Llanbedr ac amlygodd yr angen i fod yn glir ac yn deg wrth ystyried y cynnig mewn perthynas ag Ysgol Bryn Clwyd. Cyfeiriodd y Cyng. Merfyn Parry at y gwaith cadarnhaol sydd wedi ei wneud gan yr ysgolion a'u Cyrff Llywodraethu i sefydlu ffederasiwn llwyddiannus. Cyfeiriodd y Cyng. Huw Williams at yr angen i wneud gwaith cynnal a chadw ar adeilad Ysgol Gellifor.

Cynnig 6 – Cadw Ysgol Bro Famau (Atodiad 6)

Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r ardal leol ond mae yna nifer fawr o lefydd dros ben. Mae'r ddau safle mewn cyflwr da ac argymhellir bod y sefyllfa bresennol yn parhau gyda'r Awdurdod a bod y Corff Llywodraethu yn adolygu defnydd presennol y safle'n barhaus.

Mynegodd y Cyng. Martyn Holland bryderon ynghylch cyllid gan Lywodraeth Cymru, yr angen i ddiogelu ysgolion gwledig ac effaith y CDLI ar ysgolion mewn ardaloedd gwledig. Eglurodd Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg bod swyddogion addysg a chynllunio wedi cydweithio i sicrhau bod nifer disgywliedig y disgyblion yn cael ei gynnwys yn y broses blaengynllunio. Cyfeiriodd at ddiffyg

cyfalaf ac arian ac amlygodd yr angen i adrefnu er mwyn buddsoddi mewn ysgolion yn y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth i ddilyn, eglurwyd bod argymhelliad wedi ei wneud ynglŷn â chychwyn ymgynghoriad ffurfiol ddechrau mis Medi 2013, er mwyn annog trafodaethau ar ddechrau'r tymor ysgol, a chynnal yr ymgynghoriad am o leiaf 6 wythnos. Byddai'r broses ymgynghori yn galluogi rhieni, disgyblion, llywodraethwyr a staff i wneud sylwadau ar y cynigion cyn y byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen a chyhoeddi cynigion ffurfiol ar gyfer newid. Cadarnhawyd mai cynigion 1 a 2 yn unig fyddai'n gofyn am ymgynghoriad ffurfiol ar hyn o bryd.

Bydd astudiaeth ddichonolrwydd cynnig 3 yn cael ei gynnal dros yr haf, gyda'r golwg o gyflwyno'r dewis a ffafir i'r Cabinet cyn diwedd yr hydref. Byddai hyn yn arwain at egluro'r dewisiadau ar gyfer sicrhau'r gwelliannau ar gyfer y dref. Byddai'r wybodaeth hon yn galluogi'r Cabinet i ystyried achos busnes ar gyfer buddsoddiad. O ran cynigion 4, 5 a 6, bydd y Pennaeth Addysg a Phennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg, yn amodol ar gymeradwyaeth, yn dechrau'r trafodaethau gyda'r Cyrff Llywodraethu perthnasol i sicrhau'r cytundebau angenrheidiol i wneud y newidiadau a amlygwyd. Os ni dderbynnir cymeradwyaeth, yna mae'n bosib y caiff cynigion eraill eu cyflwyno i'r Cabinet yn ystod gwanwyn 2014.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn:-

- (i) *nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad;*
- (ii) *Cymeradwyo cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer y cynigion i gau Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog ar 31 Awst 2014, ac uno'r ddwy ysgol fel ysgol ardal newydd ar 1 Medi 2014 yn defnyddio'r safleoedd presennol;*
- (iii) *Cymeradwyo cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer y cynigion i gau Ysgol Llanbedr ar 31 Awst 2014 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Borthyn, yn dibynnu ar ddewis y rhieni;*
- (iv) *Argymell i Gyrrff Llywodraethu Ysgol Pentrecelyn ac Ysgol Llanfair DC eu bod yn ffurfio ffederasiwn erbyn 1 Medi 2014 fan bellaf..*
- (v) *nodi canfyddiadau'r astudiaeth dichonolrwydd cyntaf i adnabod safleoedd posib ar gyfer ysgolion cynradd yn ardal Rhuthun ac argymell cynnal astudiaeth ddichonolrwydd pellach cyn cadarnhau unrhyw argymhelliad ffurfiol ar gyfer Ysgol Stryd Rhos, Ysgol Borthyn, Ysgol Penbarras ac Ysgol Rhewl.*

6 DIWEDDARIAD ARIANNOL

Cyflwynodd y Cyng. Julian Thompson Hill ei adroddiad, a gylchredwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn cynnwys manylion ynglŷn â chyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd ar gyfer 2012/13 ar ddiwedd mis Mawrth 2013 a'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Cynllun Cyfalaf, Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

Roedd yr adroddiad yn crynhoi cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2013/14 (Atodiad 1). Roedd y gyllideb net yn £192 miliwn ar ddiwedd mis Mai a rhagwelwyd y byddai tanwariant o £45 mil (0.045) ar wasanaethau a chyllidebau corfforaethol. Roedd rhagolygon cadarnhaol o ran balansau cyllidebau ysgolion (£322 mil). Rhagwelwyd tanwariant o £150 mil yng nghyllidebau ysgolion heb eu dirprwyo, y mwyafrif yn

ymwneud â'r clybiau brecwast, a chynigwyd y dylid defnyddio'r arian fel cyfraniad at ariannu'r amddiffyniad fformwla ysgol sydd wedi ei gynnwys fel ymrwymiad.

Mae Atodiad 2 yn nodi'r cynnydd hyd yma yn erbyn yr arbedion a amlygwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2012/13. Cytunwyd ar darged arbedion o £3.061 miliwn ar gyfer y flwyddyn ac mae 39% o'r targed (£1.186 miliwn) wedi ei gyrraedd. Mae crynodeb o'r Cynllun Cyfalaf a'i nodau, gan gynnwys y gwariant arfaethedig o £6.8 miliwn, wedi ei gynnwys yn Atodiad 3. Mae cyllideb 2013/14 wedi clustnodi £600 mil i'w neilltuo i Gronfa Wrth Gefn y Cynllun Corfforaethol. Mae Atodiad 4 yn cynnwys y diweddaraf ar y prosiect cyfalaf mawr sydd o fewn y Cynllun Cyfalaf ar gyfer eleni. Ar ddiwedd mis Mai, roedd cyfanswm benthyciad y cyngor yn £133.264 miliwn ar raddfa gyfartalog o 5.77%. Roedd y balansau buddsoddi yn £24.1 miliwn ar raddfa gyfartalog o 0.86%.

Mae manylion ynglŷn â chostau ac effaith hyn ar wasanaethau eraill wedi eu cynnwys yn yr adroddiad fel a ganlyn:-

Gwasanaethau Prifffyrdd a'r Amgylchedd – Er bod y Gwasanaethau Prifffyrdd a'r Amgylchedd ar hyn o bryd yn dangos dim amrywiant, dylid nodi'r pwyntiau canlynol:

- Y camau effeithlonrwydd uchel sydd ar waith. Bydd y rhain yn cael eu monitro'n ofalus a bydd y cynnydd yn cael ei nodi mewn adroddiad yn y dyfodol.
- Nifer y diwrnodau ysgol ym mlwyddyn ariannol 2013/14. Mae nifer y diwrnodau ysgol yn fwy na'r arfer ac yn debygol o gael effaith ar wasanaeth cludiant ysgol yr ardal. Rhagwelwyd y bydd unrhyw orwariant yn y maes hwn yn cael ei gadw o fewn cyllideb cyffredinol Prifffyrdd a'r Amgylchedd.

Cyfeiriodd y Cyng. Eryl Williams at y nodyn sy'n dweud bod gwariant tybiedig cynlluniau cyfalaf yn ddim, cyfeiriodd yn benodol at gludiant. Cyfeiriodd at fenthycia darbodus a grantiau'r Llywodraeth a mynegodd bryder ynghylch eglurder y broses ariannu. Eglurodd y Cyng. Thompson-Hill bod y ffigwr yn yr adroddiad yn gysylltiedig â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf a chadarnhaodd y byddai darpariaeth cyllid 2013/14 yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol. Cyfeiriodd y Prif Gyfrifydd at Atodiad 3 a darparodd fanylion y ffigyrau o ran y Cynllun Cyfalaf cyffredinol. Eglurodd mai arian wedi ei gymeradwyo, trwy'r Grŵp Buddsoddi Strategol, yn unig sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

Gwella Ysgolion a Chynhwysiant – Mae gwaith manwl yn cael ei wneud i ddarparu amcangyfrif cadarn ar gyfer costau lleoedd y tu allan i'r sir a ffioedd adennill. Mae tanwariant wedi bod yn y cyllidebau hyn yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag byddan nhw'n parhau'n gyfnewidiol gan eu bod yn seiliedig ar nifer y disgyblion a thrafodaethau cymhleth rhwng Awdurdodau. Mynegodd y Cyng. Williams bryderon ynghylch fframwaith ariannu Gwella Ysgolion a Chynhwysiant a gweithredu'r trefniadau newydd. Pwysleisiodd bod angen diogelu budd y Sir.

Gwasanaethau Oedolion a Busnes – Mae'r gofyniad cenedlaethol i ddiogelu cyllidebau gofal cymdeithasol wedi arwain at £905 mil ychwanegol o fewn y flwyddyn. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i ariannu nifer o brosiectau sy'n ceisio lleihau costau refeniw'r dyfodol. Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Arweinydd,

darparodd y swyddogion fanylion yn ymwneud â'r gofyn cenedlaethol i ddiogelu arian ychwanegol ar gyfer cyllidebau gofal cymdeithasol. Cadarnhawyd y bydd arian yn cael ei dynnu yn y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn ei fuddsoddi mewn mesurau fydd yn lleihau costau tymor hir ac yn darparu mesurau ataliol yn y dyfodol.

Ysgolion - Ar ddiwedd mis Mawrth y rhagamcan ar gyfer balansau ysgolion oedd £3.192 miliwn. Mae hyn yn symudiad positif o £322 mil ar falansau a gariwyd drosodd o 2012/13.

Mae cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai hefyd wedi ei chynnwys yn Atodiad 1. Fodd bynnag mae adnoddau Cyfrif Refeniw Tai yn gyllid ar wahân i brif adnoddau'r cyngor, a gellir ond eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau tai cyngor. Pennir cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2013/14 drwy dybio bod gwariant cyfalaf o £890 mil yn cael ei ariannu gan adnoddau refeniw. Cadarnhawyd y bydd taliadau Cymhorthdal Tai yn lleihau a rhagwelwyd y bydd Cynllun Cyfalaf Tai yn gwario £8.1 miliwn gan gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn diwedd 2013/14.

Mynegodd y Cyng. Barbara Smith bryderon ynghylch adleoli cyllid ac awgrymiadau Llywodraeth Cymru o ran annog Awdurdodau Lleol i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer gwariant refeniw. Dywedodd y Prif Weithredwr nad oes modd i Lywodraeth Cymru ymyrryd yn uniongyrchol yn y mater hwn a chyfeiriodd at y gostyngiad yn narpariaeth refeniw'r Llywodraeth Leol. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bwysigrwydd adeiladu cronfeydd wrth gefn ac eglurodd bod gan Sir Ddinbych gynlluniau ar gyfer ei chronfeydd wrth gefn gan gyfeirio at Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

PENDERFYNWYD:- y dylai'r Cabinet nodi'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

7 PARTNERIAETH IECHYD MEDDWL

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a gylchredwyd cyn y cyfarfod, ac eglurodd bod Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion yn cael eu darparu ar hyn o bryd gan Bartneriaeth Iechyd Meddwl Oedolion Conwy a Sir Ddinbych. Roedd y Bartneriaeth i fod i ddod i ben ym mis Gorffennaf 2013. Mae angen penderfyniad gan y Cabinet er mwyn cytuno ar drefniadau partneriaeth newydd rhwng y Cyngor a Phrifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Rhoddodd yr Arweinydd grynodedb ar gefndir y Bartneriaeth a sefydlwyd a chynhaliwyd gan gytundeb ffurfiol cyfreithiol dan Adran 31 o Ddeddf Iechyd 1999, sef Cytundeb Adran 33 bellach. Roedd y Cytundeb Partneriaeth yn gytundeb ar bolisiâu a threfnau cyffredin ar draws y gwasanaeth ac mae copi o'r adroddiad gwreiddiol a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Chwefror 2005, ynghyd â Phapur Briffio'r Cabinet, wedi eu cynnwys yn Atodiad 1 a 2 yr adroddiad.

Mae'r newidiadau a ddeilliodd o greu Prifysgol Betsi Cadwaladr a datblygu model y Grŵp Rhaglen Clinigol wedi eu gwneud hi'n gynyddol anodd i reoli'r bartneriaeth

gyfredol ochr yn ochr â threfniadau mewn man arall yn y Grŵp Rhaglen Clinigol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng ngweddill dalgylch Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd hyn, ynghyd â'r gofyniad i ymateb i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, wedi cymell adolygiad o'r trefniadau cyfredol mewn perthynas â'r Bartneriaeth yn Sir Ddinbych.

Cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes na fydd diweddu'r Bartneriaeth gyfredol a chreu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Cyngor a Phrifysgol Betsi Cadwaladr yn cael unrhyw effaith ar y gwasanaeth. Bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd yn eglurach a bydd yn gofyn i Brifysgol Betsi Cadwaladr ddarparu gwybodaeth fel rhan o broses sy'n fwy prydlon a rheolaidd. Dywedodd bod safon y gwasanaeth a ddarperir yn Sir Ddinbych yn uchel iawn.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cytuno:-

- (a) bod Partneriaeth Iechyd Meddwl a Gofal Cymdeithasol presennol Conwy a Sir Ddinbych yn dod i ben ar 3 Gorffennaf 2013 a
- (b) bod Sir Ddinbych yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r model a ddatblygwyd yn wreiddiol wrth greu'r Bartneriaeth, ond y dylid adlewyrchu hyn nŵan mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Cyngor a Phrifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

8 DYFODOL GOFAL IECHYD CEFNDY

Cyflwynodd y Cyng. Hugh Irving yr adroddiad, a gylchredwyd cyn y cyfarfod, ar berfformiad Gofal Iechyd Cefndy yn y gorffennol a'r angen am fuddsoddiad. Er bod perfformiad ariannol a gwasanaeth Cefndy wedi bod yn dda, mae'r ffaith bod Cefndy wedi cyflawni effeithlonrwydd wedi atal y gwasanaeth rhag buddsoddi yn ei isadeiledd.

Mae Sir Ddinbych wedi ffurfio ymrwymiad yn ei Gynllun Corfforaethol i gefnogi bodolaeth Cefndy yn y dyfodol drwy gymeradwyo buddsoddiad cyfalaf. Mae'r adroddiad yn darparu cyfiawnhad dros fuddsoddiad cyfalaf ac yn amlinellu dewisiadau ar gyfer ffatri newydd er mwyn galluogi Cefndy i ddatblygu a dod yn gynaliadwy heb gefnogaeth refeniw parhaus gan Sir Ddinbych. Mae crynodeb o Ofal Iechyd Cefndy, busnes a gefnogir gan Sir Ddinbych, wedi ei gynnwys yn yr adroddiad ac mae copi o Gynllun Busnes Cefndy i'w gael yn Atodiad 1.

Yn y pum mlynedd ddiwethaf mae Cefndy wedi cynyddu perfformiad gwerthiant i £3.8 miliwn, ac wedi lleihau ei ddibyniaeth ar Sir Ddinbych o £200 mil. Fodd bynnag, yr her sy'n wynebu'r sefydliad nŵan yw cynaladwyedd y busnes/gwasanaeth ac fe allai hynny fygwth dyfodol Cefndy os nad yw'n cael ei ddatrys. Rhoddodd y swyddogion grynoded o'r dewisiadau sydd ar gael (mae'r dewisiadau hyn wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ac yn Atodiad 3):-

- a. Parhau â'r cynllun presennol a thynnu cymhorthdal Sir Ddinbych.
- b. Cadw lefel o gymhorthdal ar gyfer cyfnod estynedig.
- c. Buddsoddiad cyfalaf fel y nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol.

Mae'r wybodaeth ganlynol hefyd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad:-

- Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol
- Costau a'u heffaith ar wasanaethau eraill.
- Prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb, Atodiad 4.
- Ymgynghoriadau a gynhaliwyd.
- Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.
- Risgiau a'r mesurau i'w lleihau.

Mewn ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan y Cyng. Jeanette Chamberlain-Jones yn ymwneud â phroblemau aelodau o staff wrth ddefnyddio adeiladau allanol a storfeydd ar y safle, cadarnhaodd Rheolwr Cyffredinol Gofal Iechyd Cefndy y byddai'r aelodau o staff yn parhau i ddefnyddio'r adeiladau allanol a bod y materion wedi eu datrys. Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Moderneiddio a Lles bod pob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau llety addas ond yn aflwyddiannus.

Bu i'r Cabinet gydnabod llwyddiannau Cefndy o ran gwrthdroi'r duedd o ddibynnu'n ormodol ar gefnogaeth ariannol Sir Ddinbych drwy ddarparu twf masnachol ac effeithlonrwydd ariannol. Amlygodd y Cyng. Irving gyfraniad Cefndy at yr economi lleol a'u rôl fel darparwr gwaith i bobl anabl.

Ystyriodd yr Aelodau'r dewisiadau gan gefnogi Dewis C a darparu buddsoddiad a fyddai'n arwain at gynladwyedd ariannol heb gyllideb Sir Ddinbych. Roedd y Cabinet hefyd yn cefnogi cyflwyno cais am Grant Buddsoddi Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer cost lawn y gwaith i gydnabod y byddai tynnu cyllid yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi pwysau ychwanegol ar y system fudd-daliadau heb y buddsoddiad hwn.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn:-

- (a) *derbyn yr adroddiad ac yn nodi sylwadau'r Aelodau;*
- (b) *cefnogi'r cynigion ar gyfer buddsoddiad, Dewis C, yn amodol ar gytundeb y Grŵp Buddsoddi Strategol; ac yn*
- (c) *cefnogi cais y busnes am Grant Buddsoddi Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer cost lawn y gwaith i gydnabod y byddai tynnu cyllid yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi pwysau ychwanegol ar y system fudd-daliadau heb y buddsoddiad hwn.*

9 ALLANOLI GWASANAETHAU TGCH I YSGOLION

Cyflwynodd y Cyng. Eryl Williams yr adroddiad, a gylchredwyd cyn y cyfarfod, sy'n gofyn am gymeradwyaeth i ddyfarnu contract TGCh Gweinyddiaeth a Chwricwlwm Ysgolion i GAIA Technologies. Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y byddai'n rhaid trafod unrhyw fater yn ymwneud ag Atodiad 2, Asesiad Effaith ar Ansawdd, dan Ran II o'r Rhaglen.

Mae angen gwneud penderfyniad ynghylch cymeradwyo GAIA Technologies fel y darparwr TGCh gorfodol ar gyfer Rhwydwaith Gweinyddol yn dilyn y broses ddiweddar i allanoli gwasanaeth cyfredol Cyngor Sir Ddinbych, ac i gymeradwyo GAIA Technologies fel y darparwr TGCh dewisol ar gyfer Rhwydwaith Cwricwlwm

yn dilyn ail-dendro contract Cyngor Sir Ddinbych a ddaeth i ben, a ddyfarnwyd yn flaenorol i GAIA Technologies ar ran rhai ysgolion.

Eglurodd Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg mai TGCh Canolog sy'n darparu rhwydwaith Gweinyddol Ysgolion ar hyn o bryd a bod yr argymhelliad yn cynnig rhoi'r contract i GAIA Technologies sydd wedi llwyddo yn y broses dendro ddiweddar. Eglurwyd hefyd bod hwn yn gontract gorfodol y mae'n rhaid i'r holl ysgolion fod yn rhan ohono, gan ei fod yn hanfodol bod y contract yn cael ei ddarparu gan un darparwr ar draws yr holl ysgolion, er mwyn cael cysondeb rhwng Ysgolion a'r Sir. Mae 4 dewis ar gyfer y rhwydwaith Gweinyddol fel a ganlyn:-

1. Gwasanaeth a Reolir yn Llawn – staff a reolir gan Awdurdod Lleol.
2. Gwasanaeth Cefnogi – staff a reolir gan Awdurdod Lleol.
3. Gwasanaeth a Reolir yn Llawn – TUPE llawn i staff.
4. Gwasanaeth Cefnogi – TUPE llawn i staff.

Mae'r gwasanaeth presennol gyda TGCh Canolog yn wasanaeth cefnogi'n unig ac yn seiliedig ar yr atodlen brisiau a welir yn Atodiad 1. Mae'r gwasanaeth newydd gyda GAIA Technologies yn rhoi gwell ansawdd am bris gostyngol. Bydd y pris yn dal yn destun gwiriad terfynol o restr eiddo wrth ddyfarnu'r contract, ond bydd y costau uned yn aros yn sefydlog yn unol â'r tendr.

Caiff rhwydwaith Cwricwlwm yr Ysgol ei gaffael yn allanol ar hyn o bryd, a chaiff ei reoli'n lleol gan ysgolion drwy eu trafodaethau contract eu hunain gyda darparwyr amrywiol. Roedd fframwaith Sir Ddinbych i fod i gael ei hadnewyddu ar 1 Ebrill 2013, a gofynnwyd am benderfyniad wedi ei ddirprwyo i gymeradwyo estyn y contract tan 31 Awst 2013 er mwyn gwneud y contract Cwricwlwm newydd yn rhan o'r tendr ar gyfer y rhwydwaith Gweinyddol. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyng. David Smith, Eglurodd Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg bod y contract yn ddewisol ac nad oedd yn rhaid i ysgolion drosglwyddo eu contractau cwricwlwm i'r rhwydwaith. Nid ydym ni'n gwybod ar hyn o bryd pa ysgolion fyddai'n dewis trosglwyddo i'r contract newydd.

Gofynnwyd i'r darparwyr ystyried y dewis o wasanaeth a reolir yn llawn (yn cynnwys caledwedd), neu wasanaeth cefnogi sylfaenol (heb galedwedd), yn ogystal â model trosglwyddo TUPE llawn a model staffio a gedwir gan Awdurdod Lleol. Bu i hyn greu'r un pedwar dewis â'r rhwydwaith Gweinyddol ac mae manylion yr arbedion tebygol, o gymharu â'r gwasanaeth TGCh Canolog, pob ysgol yn erbyn pob dewis wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Cafwyd anawsterau wrth ddarparu cymhariaeth a chafwyd atodlen brisiau yn seiliedig ar restr eiddo ddrafft a bydd yn destun newid yn dilyn archwiliad llawn o offer yn yr ysgol unwaith y bydd y contract yn dechrau. Cynhwysir yr atodlen grynhoi lawn ar gyfer yr holl ddewisiadau yn Atodiad 1. Noder bod hyn yn seiliedig ar restr eiddo heb ei harchwilio a bydd yn newid ac yn destun trafodaethau unigol ar gyfer pob ysgol yn ddibynnol ar anghenion lleol. Mae copi cyfrinachol o'r templed Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i'w weld yn Atodiad 2.

PENDERFYNWYD y dylai'r Cabinet gymeradwyo rhoi'r contract Gweinyddol a Rhwydweithiau Cwricwlwm i GAIA Technologies.

10 ADRODDIAD CYNNYDD CHWARTEROL Y CYNLLUN CORFFORAETHOL: CHWARTER 4 2012/13

Cyflwynodd y Cyng. Barbara Smith yr adroddiad, a gylchredwyd cyn y cyfarfod, sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ar gyflawni Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 4, 2012-13 a rhoddodd grynodedb o bob canlyniad yn y Cynllun Corfforaethol.

Roedd yr adroddiad yn nodi bod y Cynllun Corfforaethol yn mynd rhagddo'n dda a bod y rhesymau y tu ôl i wella rhai elfennau wedi eu deall. Mae'n bwysig nodi bod yr adroddiad hwn yn ymwneud â blwyddyn gyntaf Cynllun Corfforaethol 5 mlynedd, a bod rhai elfennau o'r cynllun wedi eu cynnwys yn benodol oherwydd bod angen eu gwella. Bydd yn cymryd mwy o amser i wella rhai elfennau. Mae'r Tîm Gwelliant Corfforaethol wedi gweithio a Phenaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau Arweiniol i roi eglurder ynglŷn â'n huchelgais ar gyfer y cynllun, ac i roi syniad o sut y mae disgwyl i daith y gwella edrych. Mae'r gwaith hwn bron wedi ei gwblhau, ac mae casgliadau wedi eu hymgorffori yn y dadansoddi sydd wedi ei gynnwys o fewn yr adroddiad hwn.

Mae nifer o feysydd, wedi eu hamlygu mewn coch yn yr adroddiad, yn dangos bod rhai dangosyddion a pherfformiad wedi eu nodi fel "blaenoriaeth ar gyfer gwella". Mae rhai gweithgareddau wedi eu dyrannu â'r lefel isaf posibl o hyder y cânt eu cyflawni gan y swyddog sy'n gyfrifol amdanynt ac mae'r meysydd wedi eu crynhoi yn yr adroddiad:-

- Canran y disgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig.
- Nifer o fesurau perfformiad o fewn y flaenoriaeth addysg yn ymwneud ag ystafelloedd dosbarth symudol a llefydd gweigion.
- Canran ffyrdd A a B sydd mewn cyflwr gwael.
- Gwaith i ffurfioli cynlluniau ar gyfer cyrbau is.
- Cyfran yr oedolion sy'n methu byw'n annibynnol.
- Tipio anghyfreithlon yn y Sir.
- Canran y digwyddiadau tipio anghyfreithlon sy'n cael eu hadrodd.
- Argaeledd tai preifat fforddiadwy yn Sir Ddinbych.

Mae un deg pedwar Dangosydd Perfformiad Allweddol creiddiol wedi eu dynodi er mwyn meincnodi gyda HouseMark. Mae'r data mwyaf diweddar yn dangos fod gan y Cyngor saith ohonynt (50%) o fewn y chwarterel uchaf, sef y trothwy sydd wedi ei ddynodi ar gyfer bod yn "flaenoriaeth ar gyfer gwella". Yr uchelgais yn y pen draw oedd cael pob Dangosydd Perfformiad Allweddol o fewn y chwarterel uchaf. Mae cyfradd cwblhau gwerthusiadau perfformiad yn amserol hefyd yn "flaenoriaeth ar gyfer gwella", gan fod ein perfformiad ar hyn o bryd yn 92.28%. Yn gorfforaethol, cytunwyd fod unrhyw ganlyniad sy'n is na 95% yn "flaenoriaeth ar gyfer gwella".

Eglurodd Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad bod yr adroddiad wedi ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a fynegodd y pryderon canlynol:-

- Ystafelloedd Dosbarth Symudol:- Mae rhaglen yn ei lle i newid Ystafelloedd Dosbarth Symudol.
- Cyrbau Is:- Bydd yr Adran Briffyrdd i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd. Mynegodd y Prif Weithredwr bryder ynglŷn â'r diffyg cynnydd. Eglurodd bod hyn yn annerbyniol a theimlodd y gall y mater gael goblygiadau ehangach a'i ystyried yn fater Rheoli perfformiad.
- Tipio Anghyfreithlon:- Eglurodd Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad bod problemau mewnol gyda phroses adrodd y system Rheoli Cyswllt Cwsmer (RhCC) a bod angen derbyn eglurhad o hynny. Mewn ymateb i bryderon y Cyng. Huw Jones, cytunwyd gofyn i RhCC ymchwilio i unrhyw gysylltiad rhwng tipio anghyfreithlon a lleoliadau penodol o ran darpariaeth ac amseroedd casglu.
- Baw Cŵn:- Eglurodd y Cyng. David Smith y dylai nifer y cosbau am adael baw cŵn leihau i adlewyrchu effaith y broses o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â'r broblem.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Arweinydd ynglŷn â sut gellir mesur effaith blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol ar yr ardal leol ac adrodd yn ôl i'r Grwpiau Aelodau Ardal. Eglurodd Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad bod y ffigyrau yn ymwneud â'r cynnydd o ran gweithgarwch lleol wedi eu cyhoeddi ac y byddai'r broses yn cael ei hadolygu. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr pa mor bwysig yw sicrhau bod y Grwpiau Aelodau Ardal yn cadw rheolaeth ar eu rhaglenni, ac y dylid annog trafodaeth gyda Chadeiryddion y Grwpiau Aelodau Ardal.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn:-

- (a) derbyn yr adroddiad ac yn nodi sylwadau'r Aelodau; ac yn
- (b) gofyn i RhCC ymchwilio i unrhyw gysylltiad rhwng tipio anghyfreithlon a lleoliadau penodol o ran darpariaeth ac amseroedd casglu.

11 SEFYLLFA DERFYNOL Y GYLLIDEB A'R ALLDRO REFENIW 2012/13

Cyflwynodd y Cyng. Julian Thompson-Hill yr adroddiad, a gylchredwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn rhoi diweddariad ynglŷn â'r sefyllfa refeniw derfynol a'r argymhellion ar gyfer ymdrin â'r balansau. Caiff drafft cyntaf y Datganiad Cyfrifon Blyneddol ar gyfer 2012/13 ei gyflwyno i'r archwilwyr allanol ar 28 Mehefin. Bydd y cyfrifon a archwiliwyd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Medi i'w cymeradwyo'n derfynol.

Y sefyllfa alldro ariannol gyffredinol ar gyfer 2012/13 yw i'r Cyngor dan wario yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd ac iddo weld cynnydd yn arenillion Treth y Cyngor, ac mae hynny'n cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor. O ganlyniad, mae'n bosibl argymhell trosglwyddo cyllid i gronfeydd wrth gefn penodol a fydd o gymorth wrth i'r Cyngor gyfarch pwysau ariannol trwm y blyneddodded nesaf a dechrau sefydlu'r adnoddau arian parod y mae eu hangen i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

Mae'r ffigyrau Alldro Refeniw terfynol yn Atodiad 1. Sefyllfa derfynol cyllideb y gwasanaethau a'r gyllideb gorfforaethol yw tanwariant o £1.525 miliwn, 1.3% o'r gyllideb refeniw net.

Roedd sefyllfa alldro cyllideb y gwasanaethau a'r gyllideb gorfforaethol £530 mil yn uwch na'r hyn a gafodd ei adrodd wrth y Cabinet ym mis Mawrth. Roedd y symudiad mwyaf arwyddocaol o fewn Ysgolion Gwella a Chynhwysiant (£223 mil). Mae sefyllfa derfynol Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd wedi gwella o £76 mil ac mae sefyllfa'r cyllidebau corfforaethol wedi gwella o £113 mil ers y rhagolwg a gafodd ei adrodd ym mis Mawrth. Mae'r gwasanaethau'n parhau i fod yn rhagweithiol wrth gynllunio ar gyfer arbedion yn y blynyddoedd sydd i ddod, a dechreuwyd gweld effaith ariannol rhai o'r cynigion hynny ar waith tuag at ddiwedd 2012/13. Rhoddodd wasanaethau wybod am ymrwymadau yn erbyn balansau o £849 mil ym mis Mawrth. Roedd y mwyafrif o'r balansau wedi eu rhagweld oherwydd materion amseru ac mae balansau ymrwymedig y gwasanaethau bellach yn £1.139 miliwn ac mae rhagor o fanylion i'w gweld yn yr adroddiad.

Roedd y gwariant ar ysgolion £1.069 miliwn yn is na'r gyllideb a ddirprwywyd gydag ysgolion arbennig wedi gwella o £490 mil sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r cyfanswm symudiad. Mae balansau ysgolion bellach yn £2.870 miliwn sy'n oddeutu £190 y disgybl a 4.25% o gyllideb net ysgolion. Mae manylion ynglŷn â hyn wedi eu cynnwys yn Atodiad 3.

Cyllidebodd y cyngor ar gyfer gwneud cyfraniad o £300 mil i'r balansau sydd, yn gyson ag adroddiadau blaenorol, yn dybiaeth o fewn y sefyllfa alldro derfynol. Cyllidebodd y cyngor ar gyfer gwneud cyfraniad i ariannu'r Cynllun Corfforaethol a oedd angen oddeutu £25 miliwn o arian parod a £52 miliwn o fenthyciad er mwyn cyflawni uchelgeisiau'r Cyngor. Yng nghyllideb 2012/13, roedd tybiaeth y byddai £2.073 yn cael ei gynhyrchu trwy fod arian blaenoriaeth wedi'i ddyrannu i wasanaethau a thrwy fod darpariaethau wedi eu cyllidebu o fewn cyllidebau corfforaethol.

Mae gwybodaeth bellach yn ymwneud ag alldro terfynol y gwasanaethau fel a ganlyn:-

Cynllunio Busnes a Pherfformiad – y sefyllfa derfynol yw tanwariant o £60 mil.

Cyllid ac Asedau – tanwariant o £16 mil.

Priffyrdd a'r Amgylchedd - £278 mil yn is sef gwelliant o £15 mil ers y rhagolwg a wnaed ym mis Mawrth.

Cynllunio a Rheoleiddio – cynnig i'w ddefnyddio i gyllido costau ailstrwythuro fel rhan o gyflawni arbedion ar gyfer 2013/14.

Gwasanaeth Oedolion a Busnes - wedi cyflawni ei gyllideb.

Gwasanaethau Plant a Theuluoedd – adroddwyd ei fod yn £148 mil.

Tai a Datblygu Cymunedol - oherwydd i adolygiad o ariannu trwy grantiau allanol ar ddiwedd y flwyddyn amlygu costau ychwanegol y gellir eu hawlio.

Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden – roedd y sefyllfa alldro terfynol yn danwariant o £37.5 mil.

TGCh/Trawsnewid Busnes – y gyllideb yn £108 mil yn is.

Cwsmeriaid a Chymorth Addysg – tanwariant o £245 mil.

Gwella Ysgolion - tanwariant o £349 mil.

Treth y Cyngor – effeithir gan nifer yr anheddau yn y Sir, ynghyd â lefel uchel iawn o gasglu trethi (dros 98%).

Eglurodd y Cyng. Thompson-Hill, o ystyried y sefyllfa gyffredinol o fewn y gwasanaethau, y cynigir bellach fod yr adrannau yn dwyn unrhyw danwariant net yn ei flaen i gynorthwyo gyda chyflawni strategaeth cyllideb 2013/14 ac i gwrdd ag unrhyw ymrwymiad sy'n bodoli. Bydd angen i wasanaethau amlinellu'n fanylach sut caiff y balansau a ddygwyd ymlaen eu defnyddio yn 2013/14 yn yr Adroddiad Ariannol i'r Cabinet ym mis Hydref. Mae'r sefyllfa derfynol yn golygu bod gan y cyngor £651 mil o gyllid arian parod ar gael. Mae hyn yn llwyddiant sylweddol ac mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau y defnyddir yr arian yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl. Cynigir bod y swm hwn yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at y cronfeydd arian parod wrth gefn sydd eu hangen i ariannu'r Cynllun Corfforaethol.

Mae nifer o gyfraniadau eraill i mewn ac allan o'r Cronfeydd Wrth Gefn a'r Darpariaethau wedi eu caniatáu o fewn y cyfrifon ac mae'r rhain wedi eu nodi yn Atodiad 2 ar gyfer cymeradwyaeth y Cyngor. Mae'r symudiadau sylweddol i'r cronfeydd wrth gefn nad ydynt eisoes wedi eu hamlygu wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ac yn ymwneud â'r canlynol:

- Cynigir bod £6.2 miliwn yn cael ei ailddyrranu o gronfeydd wrth gefn presennol i ariannu'r Cynllun Corfforaethol (adroddwyd am hyn mewn manylder wrth y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Mai 2013).
- Mae £562 mil wedi cael ei glustnodi i ariannu amddiffyn ysgolion a effeithir gan y newidiadau diweddar i'r fformiwla gyllido.
- Mae £185 mil wedi ei ychwanegu at y Gronfa Yswiriant Wrth Gefn i gyfrif am y rhwymedigaethau sy'n parhau mewn perthynas ag MMI (cyn yswirwyr yr awdurdodau a oedd yn rhagflaenu Sir Ddinbych) a hawliadau posibl eraill. Ymatebodd y Prif Gyfrifydd i gwestiwn gan y Cyng. Hugh Irving ac eglurodd y gall y rhwymedigaethau posib a nifer yr hawliadau gynyddu yn y dyfodol.
- Mae cyllid wedi symud o'r Gronfa Statws Sengl Wrth Gefn i ddarpariaeth i ariannu hawliadau cyflog cyfartal

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Arweinydd, amlinellodd y Cyng. Thompson-Hill effaith gyfredol a'r effaith a ragwelir y caiff y Rhaglen Foderneiddio ar effeithlonrwydd a chyfeiriodd at ddull cyson y Cyngor o ran effeithlonrwydd gwasanaethau. Eglurodd y Prif Gyfrifydd bod y cynnig i gynllunio ar gyfer y gyllideb nesaf yn cynnwys cyfarfod â darparwyr gwasanaeth i drafod targedau moderneiddio a fydd yn cynnwys y prosiectau cynlluniedig.

Ymatebodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cwsmeriaid i gwestiwn gan y Cyng. David Smith ac eglurodd y bydd unrhyw weddill gan ysgol sydd wedi ei chau yn cael ei fonitro'n ofalus ac yn cael ei fwydo i mewn i'r cronfeydd canolog.

Awgrymodd y Cyng. Meirick Davies y dylid rhifo paragraffau'r adroddiad i osgoi dryswch sy'n codi yn sgil y gwahaniaeth yn nifer y tudalennau Cymraeg a nifer y tudalennau Saesneg yn y Rhaglen. Cafwyd cadarnhad bod yr incwm ychwanegol wedi ei gynhyrchu, sy'n cyfrannu at y tanwariant, yn ymwneud ag ysbwriel yn gyffredinol ac nid yn benodol i incwm o ddirwyon baw cŵn.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn argymhell y canlynol i'r Cyngor:-

- (a) sefyllfa derfynol yr alldro refeniw ar gyfer 2012/13;
- (b) ymdrin â'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau fel y manylir yn yr adroddiad.

12 ADOLYGU GWASANAETHAU DYDD

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a gylchredwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn darparu trosolwg o'r cynigion i ailfodelu gofal dydd ar gyfer pobl hŷn. Mae'r cynigion yn ymwneud yn bennaf â'r newidiadau i ogledd Sir Ddinbych, fodd bynnag mae'r egwyddorion strategol ategol ar gyfer hyrwyddo annibyniaeth pobl trwy ail-alluogi a'r defnydd o adnoddau cymunedol yn berthnasol i'r sir gyfan. Mae rhesymeg y cynigion wedi ei darparu ac mae'r maes gwasanaeth wedi ei adnabod fel maes ar gyfer toriadau cyllidebol yn y cynllun ariannol tymor canolig.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau y dylid addasu Datganiad y Prif Swyddog Cyllid i ddweud "Mae'r adroddiad yn awgrymu y bydd arbedion yn codi yn sgil yr arolwg ac y byddai'r rhain yn cael eu hail-fuddsoddi mewn gofal cymdeithasol. Bydd y cynigion hefyd yn rhyddhau gofod yn un o'n hadeiladau y gallwn ei ddefnyddio er dibenion eraill".

Mae Atodiad 1 a 2 yn cynnwys manylion rhai o'r ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal ac elfennau o'r model sydd wedi eu newid i adlewyrchu rhai o'r materion a godwyd. Mae'r adroddiad yn argymhell ym mharagraffau 4.10 a 4.13 y dylid cymeradwyo gweithredu'r model newydd.

Cafwyd crynodeb o'r adroddiad, a oedd yn cynnwys:-

- Yn 2012 nododd Llywodraeth Cymru'r angen i wasanaethau cymdeithasol Cymru ymateb i'r newid cynyddol yn nisgwyliadau cymdeithasol, i'r newid demograffig ac i'r sefyllfa anodd o ran caffael adnoddau.
- Ym mis Ionawr 2013 cyflwynwyd Bill Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) i Lywodraeth Cymru.
- Y sail ar gyfer creu model Sir Ddinbych ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion.
- Ar y cyfan, mae ar bobl eisiau cadw eu hannibyniaeth a'u cysylltiadau yn eu cymuned yn hytrach na mynychu canolfan arbennig ar gyfer pobl hŷn.
- Ceir hefyd nifer o wasanaethau cymunedol datblygedig yn cynnig gwasanaethau i bobl o bob oed.
- Y ffaith y dylai pobl gael mynediad at adnoddau cymunedol, dull sy'n gyson â Bill Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.
- Mae strategaeth ail-alluogi Sir Ddinbych wedi bod yn llwyddiannus iawn gan alluogi pobl i adennill sgiliau a hyder er mwyn byw'n annibynnol.
- Mae Llys Nant a Hafan Deg yn ganolfannau dydd traddodiadol sy'n darparu gwasanaeth gwych a gwerthfawr i'r rheiny sy'n mynd yno.
- Mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r canolfannau yn y lleiafrif o gymharu â chyfanswm poblogaeth pobl hŷn yr ardal. Mae tystiolaeth o hyn yn Atodiad 3. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn mynychu'r canolfannau hyn ddwy neu dair gwaith yr wythnos ac mae manylion ynglŷn â hynny yn Atodiad 4.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at y cynnig diwygiedig canlynol:-

- Symud gwasanaethau presennol Prestatyn o Lys Nant i Nant y Môr - Bydd hyn yn rhoi cyfle i bobl ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol ehangach gyda thrigolion Nant y Môr a chymryd rhan mewn mwy o weithgareddau sy'n cael eu cynnig yn y cyfleuster Gofal Ychwanegol. Bydd defnyddwyr gwasanaeth presennol a newydd gydag anghenion cymwys yn cael eu cefnogi 3 diwrnod yr wythnos trwy weithgaredd "galw i mewn" sy'n helpu'r bobl i gymdeithasu. Byddan nhw'n derbyn cefnogaeth ar y ddau ddiwrnod arall i leihau'r ymdeimlad o unigedd.
- Yn y tymor canolig/ tymor hir, edrych ar symud darpariaeth gofal dydd y Rhyl i Orwel Newydd - Fodd bynnag, byddem yn sicrhau bod unrhyw gynllun yn adnabod pwrpas addas a chynaliadwy ar gyfer adeilad Hafan Deg. Mae hyn yn cynnwys datblygu cyfleusterau yn y ganolfan i'n cynorthwyo i ddatblygu ein dull ail-alluogi h.y. sefydlu cegin 'gartref', yn ogystal ag edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio'r adeilad ar gyfer ystod o weithgareddau cymdeithasol a chefnogi ar gyfer pobl hŷn sy'n byw yn War Memorial Court a'r ardal.
- Ein cam cyntaf fyddai cynnig darpariaeth gofal dydd 3 diwrnod yn Hafan Deg, gyda dau ddiwrnod yn canolbwyntio ar ail-alluogi. Y cynnig gwreiddiol oedd dod â phob gweithgaredd gofal dydd traddodiadol i ben ar y safle. Fodd bynnag, diwygiwyd hyn yn sgil pryderon defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalu ac Aelodau Lleol. Mae'r cynnig yn dal i ganiatáu'r gwasanaeth i gefnogi ail-alluogi a chynnalwydd.
- Gan gymryd y bydd cynigion yr adroddiad hwn yn cael eu cymeradwyo, bydd cynllun prosiect manwl yn cael ei ddatblygu ar gyfer trefniadau presennol Hafan Deg a Llys Nant. Bydd y ddau gynllun yn adlewyrchu'r angen i reoli'r newidiadau'n sensitif trwy ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalu. Mae prif gerrig milltir y ddwy ganolfan wedi eu cynnwys yn Atodiad 5, ac mae'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gynnwys yn Atodiad 6.

Mae'r adroddiad yn crynhoi sut fydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol, cost ac effaith y penderfyniad ar wasanaethau, casgliadau'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal.

Pwysleisiodd y Cyng. Jeanette Chamberlain-Jones gwerth cyfleusterau gofal dydd i bobl hŷn yr ardal a dywedodd bod angen ystyried y gwasanaethau a ddarperir yn y Canolfannau hyn.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn:-

- (a) derbyn yr adroddiad ac yn nodi sylwadau'r Aelodau; ac yn
- (b) cymeradwyo gweithredu'r model newydd fel y nodir ym mharagraffau 4.10 a 4.13 yr adroddiad.

13 LLEOEDD LLEWYRCHUS LLAWN ADDEWID – CAIS ARIANNU AR GYFER PROSIECTAU CANOL TREF Y RHYL

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a gylchredwyd cyn y cyfarfod, sy'n gofyn am gefnogaeth y Cabinet ar gyfer datblygu a chyflwyno cais am gyllid dan raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ar gyfer Canol Tref y Rhyl.

Trwy'r cynllun hwn mae Sir Ddinbych wedi llwyddo i sicrhau arian ar gyfer nifer o fentrau a phrosiectau gan gynnwys Harbwr y Rhyl, Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl ac adnewyddu Gwesty'r Bee and Station. Fodd bynnag, mae arian y rhaglen hon yn dod i ben fis Mawrth 2014. Yn y dyfodol bydd yn rhaid mynd trwy broses gystadleuol dan Fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid i sicrhau cyllid adfywio.

Mae Cyfarwyddyd Ymgeisio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, sydd ynghlwm wrth yr adroddiad, yn nodi rhai o'r prif egwyddorion a'r dulliau disgwylidig, ynghyd â'r prif flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn adfywio. Mae'r rhain hefyd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Mae gwariant sylweddol eisoes wedi ei gynllunio yn y Rhyl trwy'r gwasanaethau Adfywio, Priffyrdd a gwasanaethau eraill a byddai modd defnyddio hyn fel arian cyfatebol. Byddai buddsoddiad gan y sector preifat hefyd yn gymwys fel arian cyfatebol, ac mae yna eisoes fwriad o fuddsoddiad preifat sylweddol yn ystod cyfnod y rhaglen yn sgil datblygiad gwesty newydd a'r Ganolfan Nofio arfaethedig. Bydd buddsoddiad pellach gan y sector preifat yn cael ei hyrwyddo trwy'r rhaglen. O ystyried yr arian cyfatebol a nodwyd yn yr adroddiad, cynigir datblygu cais o amgylch yr adnoddau presennol ac o'r herwydd ni fyddai angen neilltuo mwy o gyllid cyfalaf Cyngor Sir Ddinbych i gefnogi'r cais.

Yn wreiddiol roedd y swyddogion wedi trafod cyflwyno cais Sirol a oedd yn canolbwyntio ar holl ganol trefi'r sir. Ond, yn dilyn awgrymiadau gan swyddogion Llywodraeth Cymru, credir na fyddai cais o'r fath yn llwyddiannus ac y byddai cais sy'n canolbwyntio ar un canol tref yn fwy addas. O fewn Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen, mae canol y dref eisoes wedi ei hadnabod fel mater o bwys a'r flaenoriaeth nesaf i fynd i'r afael â hi. Ar sail hynny yn ogystal â'r cyfarwyddyd ymgeisio sydd wedi ei chyhoeddi ac awgrymiadau Llywodraeth Cymru, ystyrir bod cais sy'n canolbwyntio ar ganol tref y Rhyl yn gais cryf a all lwyddo oherwydd y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad. Mynegodd yr Arweinydd ei siomedigaeth, oherwydd cyngor Llywodraeth Cymru, na fyddai terfi eraill y Sir yn cael cyfle i fanteisio ar y rhaglen newydd.

Os byddwn yn datblygu'r cais, cynigir y dylai'r cais roi blaenoriaeth i ddatblygu busnes, entrepreneuriaeth a chreu swyddi newydd yng nghanol y dref. Byddai hyn yn canolbwyntio ar fanwerthu, yn arbennig o fewn y sector annibynnol a sectorau wedi eu tangynrychioli fel bwyd, ond o ran y cyd-destun manwerthu newidiol, byddai hefyd yn ystyried sut gall canol y dref gefnogi darpariaeth tai amrywiol a gwasanaethau ehangach. Eglurwyd y byddai'r cyllid ar gyfer cyfalaf yn hytrach na refeniw, ond byddai hyn yn darparu cyfle i sicrhau cyllid ar gyfer caffael eiddo, adnewyddu, cynlluniau grant, gwelliannau amgylcheddol ac, o bosib, gwelliannau i feysydd parcio. Byddai'n rhaid i unrhyw gynllun cyfalaf gael ei gefnogi gan fentrau busnes a hyfforddi addas.

Mae'r adroddiad yn nodi sut fydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol, sut fydd y costau yn effeithio ar wasanaethau eraill ac yn darparu amlinelliad o'r risgiau a'r mesurau i'w lleihau. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai cefnogaeth bellach i'r cais yn cael ei dderbyn gan Asiantaethau Cymunedol a Phartneriaid perthnasol, ac y byddai cymeradwyaeth ffurfiol cais Cam 2, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, yn cael ei ystyried gan y Cabinet ar 3 Medi 2013 fel y nodir yn Adran 7 o'r adroddiad.

Mewn ymateb i'r materion a godwyd gan y Cyng. Barbara Smith a'r Cyng. Jeanette Chamberlain-Jones, eglurodd Rheolwr Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen bod arwyddion a strategaeth mynediad y Rhyl yn cael eu paratoi ar hyn o bryd a bod y gwaith i fynd i'r afael â chyflwr Stryd Fawr Isaf wedi ei gynnwys yn Rhaglen Cynnal a Chadw Priffyrdd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyng. Huw Jones, eglurodd yr Arweinydd bod manylion y cais wedi eu hanfon at Grwpiau Aelodau Ardal yn ne'r Sir er mwyn egluro pam bod y cais yn canolbwyntio ar y Rhyl. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bwysigrwydd cydnabod bod y dylai'r penderfyniad i gynnwys eitemau i'w hystyried ar raglen y Grwpiau Aelodau Ardal barhau gyda'r Grwpiau Aelodau Ardal dan sylw. Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol y gellir mynd i'r afael â'r mater ynghylch lledaenu gwybodaeth yn ystod brieff y Cyngor ym mis Medi sydd wedi ei drefnu i ystyried y Strategaeth Datblygu Economaidd ac Adfywio.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn:-

- (a) cefnogi datblygu cais am gyllid ar gyfer Canol Tref y Rhyl; ac yn
- (b) cyflwyno cais Cam 1 (Rhaglen Amlinellol Strategol) erbyn 12 Gorffennaf 2013.

14 ADOLYGU GRŴP LLYWIO'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

Cyflwynodd y Cyng. Eryl Williams yr adroddiad, a gylchredwyd cyn y cyfarfod, sy'n amlinellu'r cynigion i ddiwygio aelodaeth Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol. Cytunwyd y dylai'r Grŵp Llywio newydd ddarparu arweiniad a chyfarwyddyd i symud y Cynllun Datblygu Lleol yn ei flaen trwy'r broses fabwysiadu ffurfiol ac i ganolbwyntio ar weithredu strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol. Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl ac ar yr Aelodaeth, a bu i'r grŵp gyfarfod y llynedd. Fodd bynnag, cydnabuwyd y bydd yn rhaid adolygu'r aelodaeth yn dilyn etholiadau mis Mai 2012 a mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.

Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, mae'n bwysig bod Grŵp diwygiedig yn cael ei ffurfio er mwyn darparu arweiniad gwleidyddol ar ddatblygu cyfres o Nodiadau Cyfarwyddyd Cynllunio Ychwanegol, briffiau datblygu a chynlluniau isadeiledd i hwyluso gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig. Prif swyddogaeth Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol yw cefnogi darpariaeth a monitro parhaus ac adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, ynghyd â chefnogi gweithredu Strategaeth y Cynllun. Byddai gan y Grŵp rôl anweithredol ond byddai'n adrodd yn ôl ac yn gwneud argymhellion i'r Cabinet a'r Cyngor yn ôl yr angen.

Mae'r Cylch Gorchwyl diwygiedig (Atodiad 1) yn nodi'r trefniadau aelodaeth arfaethedig. Bydd nifer yr aelodau yn aros yr un fath (sef 12) ond ceisir cael cydbwysedd gwleidyddol a daearyddol hyd y gellir. Bydd pob Grŵp Aelodau Ardal yn enwebu 2 Aelod i gynrychioli eu hardal.

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn chwarae rhan uniongyrchol o ran cyflawni blaenoriaethau 'Datblygu'r Economi Lleol' a 'Sicrhau Mynediad at Dai o Ansawdd' trwy'r polisiau a'r cynigion ynddo. Prif swyddogaeth y Grŵp Llywio fydd goruchwylio cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol, gan alluogi'r ddarpariaeth o dai, cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol a diogelu'r amgylchedd trwy'r Sir. Mae copi o'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gynnwys yn Atodiad 2.

Yn ystod y drafodaeth i ddilyn bu i'r Aelodau cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl diwygiedig ac aelodaeth Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol, fel y nodir yn Atodiad 1, ac yn amodol ar ddileu'r cyfeiriad at falans gwleidyddol. Cytunwyd hefyd anfon cais at Gadeiryddion Grwpiau Aelodau Ardal yn gofyn am enwebu dau berson ar gyfer y Grŵp Llywio. Dylid derbyn yr enwebiadau erbyn wythnos gyntaf mis Gorffennaf 2013. (AL i weithredu)

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn:-

(a) cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl diwygiedig ac aelodaeth Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol, fel y nodir yn Atodiad 1, ac yn amodol ar ddileu'r cyfeiriad at falans gwleidyddol; ac yn

(b) cytuno i anfon cais at Gadeiryddion Grwpiau Aelodau Ardal yn gofyn am enwebu dau berson ar gyfer y Grŵp Llywio erbyn wythnos gyntaf mis Gorffennaf 2013.

15 RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynodd yr Arweinydd Raglen Waith i'r Dyfodol y Cabinet, a gylchredwyd â phapurau'r cyfarfod.

PENDERFYNWYD – y dylai'r Cabinet gymeradwyo ei Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.45 pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	30 Gorffennaf 2013
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol Tir Cyhoeddus a Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid
Awdur yr Adroddiad:	Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid
Teitl:	Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Bwyd

1. AM BETH MAE'R ADRODDIAD YN SŌN?

Yn dilyn adroddiadau cenedlaethol diweddar am ganfod DNA cig ceffyl mewn cynnyrch cig, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cynnal archwiliad i gaffaeliad bwyd ac arferion rheoleiddio cyfredol. Mae Grŵp Tasg a Gorffen sy'n gytbwys o ran gwleidyddiaeth wedi'i sefydlu, yn cynnwys swyddogion ac Aelodau'r Cyngor, i ganfod unrhyw risgiau allweddol a'u galluogi i osod dulliau gweithredu addas er mwyn diogelu preswylwyr, ymwelwyr a defnyddwyr gwasanaethau'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys ysgolion a chartrefi preswyl y gwasanaethau cymdeithasol a lleoliadau eraill sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor.

2. BETH YW'R RHESWM DROS LUNIO'R ADRODDIAD HWN?

Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi cyfarfod o leiaf 4 gwaith, i drafod materion penodol ac mae gwaith ac mae argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen wedi'u hystyried gan Bwyllgor Archwilio Cymunedau ar 23 Mai 2013. Yn y cyfarfod hwnnw croesawodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r Grŵp ac argymhell y dylid cyflwyno'r 13 argymhelliad, sy'n deillio o'r adolygiad, i'r Cabinet i'w cymeradwyo fel y gosodwyd hwynt yn y drafft.

3. BETH YW'R ARGYMHELLION?

Swyddogaethau Rheolaethol

Eich bod:

- 3.1** Yn ystyried cyflogi swyddog safonau bwyd ychwanegol am gyfnod o 12/18 mis nes y bydd swyddog cyfredol wedi cymhwyso'n llawn. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r angen i reoleiddio busnesau bwyd yn well gan alluogi i'r Cyngor gynnal archwiliadau ychwanegol, samplu a threfnau monitro. Mae disgrifiad cryno o'r rôl wedi'i gynnwys yn Atodiad 5 ac amlinelliad o'r goblygiadau ariannol ym mharagraff 6 yr adroddiad hwn.
- 3.2** Bod y Cyngor yn llawn gefnogi archwiliadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd o ddarpariaeth gorfodi cyfreithiau bwyd Awdurdodau Lleol yn ystod 2013/14. Bydd yr archwiliadau hyn yn cynnwys hylendid bwyd, safonau bwyd a dosbarthu bwyd, a gall arwain at ddyrannu gradd i bob Awdurdod. Cynhelir yr archwiliad ym mis Gorffennaf 2013.

- 3.3** Bod y Cyngor yn cyflwyno cais i'r Asiantaeth Safonau Bwyd i gael cyllid i samplu cynnyrch cig, yn enwedig ar gyfer ysgolion a chartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg gan GSDd. Bydd y cyllid yn cefnogi rhaglen samplu gan ganolbwyntio ar rywogaeth cig a rhaglen arall yn canolbwyntio ar gynnwys halen/braster mewn bwyd. Mae'r Cyngor yn aros am benderfyniad am y cais hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
- 3.4** Bod y Cyngor yn cefnogi dynesiad rhanbarthol i agweddau eraill y rhaglen Asiantaeth Safonau Bwyd ledled Gogledd Cymru mewn perthynas ag amnewid caws, alergedd cnau, cig oen a rhywogaethau cig eraill a mycotocsin mewn grawnfwydydd, rhaglen sy'n canolbwyntio'n bennaf ar adeiladau adwerthu.

Swyddogaethau Caffael

Bod:

- 3.5** Gwell cydlynid o wybodaeth a gweithgarwch rheoli rhwng adrannau perthnasol er mwyn gwella trefniadau rheoli cytundebau ac arbed dyblygu ymdrech.
- 3.6** Archwiliad heb rybudd yn cael ei gynnal yn rheolaidd er mwyn sefydlu tarddiad, hylendid a chydymffurfio â manylion cytundebau. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud fel rhan o'r swydd ychwanegol a nodir yn 3.1.
- 3.7** Yr Uned Gaffael Gorfforaethol yn sicrhau bod TUCO (Sefydliad Arlwyo Prifysgolion) yn rhannu'r holl gwynion, darparu diweddariadau cyflenwyr, adroddiadau Gwasanaeth Cefnogi Hyfforddiant (STS) a gwybodaeth rheoli gyda rheolwr cytundebau penodedig. Bydd hyn hefyd yn cynnwys yr angen i fonitro tarddiad bwyd yn llym yn fframwaith cadwyn fwyd TUCO er mwyn sicrhau bod yr isgcontractwyr a'r prif gontractwyr yn cydymffurfio.
- 3.8** Creu un man gwybodaeth ganolog ar gyfer cytundebau caffael bwyd drwy ddefnyddio System Reoli Cytundebau Proactis.
- 3.9** Cynnal adolygiad chwarterol o'r holl wariant yn ymwneud ag arlwyo er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheolau gweithredu cytundebau a rheoliadau archebu ar y we er mwyn sicrhau bod dulliau gweithredu a dulliau gwirio ar waith. Uwch reolwyr i sicrhau eu bod yn delio ag unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio.
- 3.10** Cynnwys Cymal Hawl i Archwilio ymhob cytundeb archebu bwyd gyda TUCO.
- 3.11** Y Cyngor yn delio â chytundeb y cigydd yn ffurfiol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cyffredinol

3.12 Gofynnir yn ffurfiol i ddarparwyr am restr o ddarparwyr bwyd pan fydd ymweliadau monitro cytundebau yn cael eu cynnal. Gan nad yw hyn yn faes arbenigedd Swyddogion Cytundebau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r wybodaeth yn cael ei hanfon at Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd er mwyn iddynt ei asesu a gwneud unrhyw argymhellion angenrheidiol.

3.13 Cynnal aelodaeth Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Bwyd am 6-9 mis (yna ei adolygu) er mwyn monitro cyflenwad yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn, a bod monitro gweithgarwch yn y maes hwn yn y dyfodol wedi'i gynllunio yn unol â'r broses o herio'r gwasanaeth yn flynyddol a Chynllun Gwaith i'r Dyfodol Archwilio.

4. MANYLION AM YR ADRODDIAD

Yn dilyn canfod DNA cig ceffyl mewn cynnyrch bwyd, mae'r Tîm Gweithredu Corfforaethol wedi penderfynu sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen Aelodau/Swyddogion bychan er mwyn adolygu ein polisiau a'n dulliau cyfredol a darparu cymaint o sicrwydd â phosibl i'r Aelodau a'r cyhoedd bod y polisiau a'r dulliau cywir ar waith yn Sir Ddinbych, a phenderfynu a oes unrhyw wersi i'w dysgu er mwyn gwneud gwelliannau pellach ar gyfer y dyfodol. Mae Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Bwyd wedi'u cynnwys fel Atodiad 1.

Penderfynodd y Grŵp gymryd golwg ar 3 elfen allweddol o fusnes y cyngor, sef:

- ➔ Caffael cig a chynnyrch cig – gweithgaredd sydd wedi'i arwain gan yr Uned Gaffael Gorfforaethol
- ➔ Rôl y Cyngor fel corff gorfodi a rheolaethu - arweiniwyd y gweithgaredd gan swyddogion Diogelu'r Cyhoedd
- ➔ Digonedd trefniadau cytundebol gyda gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu, yn enwedig yn y Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyfarfu'r Grŵp Tasg a Gorffen ar 4 achlysur er mwyn trafod materion penodol y tri maes allweddol o waith. Yn dilyn archwilio'r meysydd hyn, rhoed y dasg o gynhyrchu Datganiad Sefyllfa ac argymhellion i wella'r gwasanaeth i'r swyddogion perthnasol. Ystyriwyd y Datganiadau Sefyllfa hyn yn y cyfarfod canlynol, a chytunwyd arnynt cyn cynhyrchu'r adroddiad hwn. Mae'r Datganiadau Sefyllfa wedi'u cynnwys yn Atodiad 2, 3 a 4.

Mae'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn Adran 3 uchod wedi deillio o'r Datganiadau Sefyllfa a gynhyrchwyd gan y swyddogion perthnasol. Mae aelodau'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi cytuno ar gynnwys yr adroddiad hwn. Ysgrifennwyd cofnodion yn y cyfarfodydd hyn, ac mae'r rhain yn dangos y pwyntiau manwl a ystyriwyd yn ystod y cyfarfodydd. Mae cofnodion y cyfarfodydd ar gael i aelodau etholedig sy'n dymuno eu gweld.

5. SUT MAE'R PENDERFYNIAD YN CYFRANNU AT Y BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL?

Er nad yw gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Bwyd yn cysylltu'n uniongyrchol ag un neu fwy o'r 7 blaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol 2012-2017, mae'n ddyletswydd allweddol bod y Cyngor yn sicrhau bod preswylwyr yn derbyn cig a chynnyrch cig dibynadwy a bod modd olrhain y cynnyrch, ynghyd â nwyddau defnyddwyr eraill.

6. BETH FYDD YN EI GOSTIO A SUT BYDD YN EFFEITHIO AR WASANAETHAU ERAILL?

Gan eithrio argymhelliad 3.1 bydd costau'r argymhellion eraill yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau cyfredol. Bydd cost o £41mil y flwyddyn o gyflogi Swyddog Safonau Bwyd am 12/18 mis yn cael ei gyllido o Gronfa Gallu i Newid a chytunodd Y Tîm Gweithredol Corfforaethol yn unol â'r gofynion.

7. PA YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD?

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriadau ar gynnwys ac argymhellion yr adroddiad hwn hyd yn hyn. Er hyn, mae'r Uned Gaffael Gorfforaethol wedi cysylltu â'r holl sefydliadau sy'n cyflenwi cig a chynnyrch cig i'r Cyngor er mwyn cael sicrwydd o'u tarddiad ac unrhyw brofion â wnaed gan y cyflenwyr.

Mae Adran Diogelu'r Cyhoedd wedi cysylltu â'r Asiantaeth Safonau Bwyd er mwyn deall gweithgareddau y mae'r sefydliad yn bwriadu eu cynnal yn y dyfodol, ac i dderbyn unrhyw gyngor uniongyrchol yr oedd yr Asiantaeth yn ei ryddhau.

8. DATGANIAD Y PRIF SWYDDOG CYLLID

Gellir cyllido costau ychwanegol y swydd dros dro, ond bydd yn rhaid cynnwys unrhyw gostau eraill yn y cyllidebau cyfredol.

9. PA RISGIAU SY'N BODOLI AC A OES UNRHYW BETH Y GALLWN EI WNEUD I'W LLEIHAU?

Cadarnhaodd y Grŵp Tasg a Gorffen yn gynnar yn eu hymchwiliadau nad oes unrhyw risgiau iechyd uniongyrchol yn gysylltiedig â mater DNA cig ceffyl, ond mae angen gwell dealltwriaeth o brosesau caffael a'n polisi ffynonellau fel bod y bwyd sy'n cael ei archebu gan y Cyngor o safon uchel a bod modd olrhain ei darddiad. Dyluniwyd yr adolygiad a'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn er mwyn lleihau'r risg bod deunyddiau bwyd o safon isel yn mynd i'r gadwyn fwyd yn Sir Ddinbych.

10. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

Mae Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi pŵer i'r Cyngor wneud penderfyniadau ar y mater hwn.

Erthyglau 6.3.2 (b) a 6.3.4 (ch) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Swyddog Cyswilt:

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid

Ffôn: 01824 712501

FOOD REVIEW TASK & FINISH GROUP

TERMS OF REFERENCE

FEBRUARY 2013

1. PURPOSE

Due to the significant interest that has recently been shown following the Horse Meat Scandal, and the concerns that have stemmed from these events, the Corporate Executive Team has agreed to set up a small Member/Officer Task & Finish Group to review our current policies and procedures and to provide Members and the public with as much reassurance as possible that the right policies and procedures are in place in Denbighshire, and to gauge whether there are any lessons to be learned in order to make further improvements for the future.

2. GROUP MEMBERSHIP

- Councillor Julian Thompson-Hill - Lead Member (Procurement)
- Councillor David Smith - Lead Member (Public Protection)
- 4 Members representing the Political Groups
- Corporate Director - Lead Officer
- Relevant officers from School Meals Service, Social Care, Public Protection and Procurement

3. SCOPE OF THE REVIEW

The Group will look at the following issues:

- a) Assurances about any health related matters (we don't believe this to be an issue, but have included it for completeness)
- b) An understanding of, and assurances about, our current procurement procedures and how they can be further improved if necessary
- c) Our sourcing policy for the future
- d) The Council's role as an enforcing and regulatory body

- e) The sufficiency of contractual arrangements with commissioned services and the advice and support for Arms Length Organisations

The output from this Task & Finish Group will be a report that will be presented to a future Scrutiny Committee (date and Committee to be determined). Scrutiny can then make appropriate recommendations to Cabinet if any changes to policy is necessary.

4. TIMEFRAME

This may be dependent to an extent on developments at national level which are not entirely clear at the moment. However, this task should be completed in readiness for a May/June Scrutiny meeting. It is envisaged that this group meets during February/March and a report be prepared in April for the Committee timetable in May.

Position Statement: Review of Food Procurement

BACKGROUND

Denbighshire County Council spends approximately £1.2 million annually on food, the majority of which is supplied to our Schools and Social Services establishments. The greatest spend is with suppliers on TUCO (The University Caterers Organisation Ltd) framework agreement. This is a specialist, sector specific, food procurement consortium. Their role is to create legally constituted EU framework agreements on behalf of the public sector clients to maximise their buying power, whilst taking into account food hygiene considerations.

TUCO use STS (Support Training Services), an accreditation company to carry out annual audits on Framework suppliers. The audits are conducted initially on a prearranged basis during tender evaluation. Subsequent year's annual audits are conducted on either a prearranged or unannounced spot visit basis. TUCO undertake to alert all Framework users, if any of the suppliers fail the audit.

There are currently 59 catering suppliers identified within the catering category analysis carried out by procurement, with an additional 57 sub-contractors involved within the supply chain. Of the 59 suppliers identified, 16 of these are with TUCO and 7 of the 16 are local. The catering category consists of suppliers of fresh/frozen meat & poultry, grocery, fruit & veg, milk, bread, sandwich fillers, confectionery, pasta and also outside catering establishments. These suppliers are graded by the FSA (Food Standards Agency). This is an independent Government department responsible for food safety and hygiene across the UK.

The Denbighshire departments who are the major users of the suppliers in the catering category are:

- Catering Services (DCC schools & St. Brigid's)
- Social Services (Residential Care homes, Hafan Deg, Llys Nant Activity Centre(meals on wheels) and Popty
- Leisure Centres, Rhyl Pavilion, Llangollen Pavilion and Ruthin Craft Centre

Following actions from the Food Review Task and Finish Group meetings, Procurement has electronic and manual files containing all evidence and correspondence collated which can be viewed by request. Detail held includes copies of all statements from suppliers and also information from TUCO, STS, FSA and internal service areas of Denbighshire CC.

Meat and Poultry products purchased by Denbighshire CC has been identified in management information reports received from suppliers and sub-contracting suppliers. Their source of origin is traced by batch and resource codes on the label on each product. Statements along with certificates of analysis testing have been received, all with successful results.

Catering services stipulate in their product specification with TUCO what they want for example PGI (Welsh origin), specific cuts of meat and permitted fat levels. This is then put into the tender documentation and must be monitored by the contract manager. Denbighshire CC has a direct contract with Hughes Meats (with Woodward's as their distributor) whereby all meat is PGI and the supplier supplies beef below 30 months old. Following investigation work by procurement over the past month, it was established that one product item was sourced from

Germany. This supplier was a sub-contracted supplier to Woodward's. This example stresses the need for better contract management with TUCO and the supplier. Procurement held a telephone conference with both to determine a way forward.

Procurement has been working with Social Services over the past two years to establish a more robust procurement operation. (Residential homes, activity centres and Popty) This involves using suppliers on contract and streamlining products to avoid exposure to risk. Fresh meat purchased from local supermarkets on an ad hoc basis has been discouraged, with the emphasis placed on purchase from local butchers or suppliers included on the TUCO framework agreements. The Social Services commissioning team have established terms and conditions for a six month contract with the supplier for the 'Meals on Wheels' service. This arrangement is periodically reviewed. Procurement has details of menu, products and traceability of the supply chain.

Butchers selected by Social Services for the purchase of fresh meat are required to supply beef below 30 months old and ensure traceability to source. Their suppliers must be PGI approved. Passports can be obtained back to the abattoirs. Butchers must be graded 5 by the FSA. (This also applies to Hughes Meats, supplier of fresh meat to schools).

Procurement has also been liaising with The British Poultry Council. All their suppliers are 90% Red Tractor (Quality Assurance). All fresh meat is British and manufactured meats can be imported from France. They use NSF/CMI accredited body (food assurance brand).

To review current food procurement, the Procurement department has requested regular management information from suppliers and encouraged more frequent communication with internal service users and TUCO relating to sharing of information. TUCO have received quotes from three organisations to set up a programme of auditing deliveries of high risk projects at high spend institutions. TUCO are introducing a National Procurement Group and its first meeting is currently being arranged. Procurement department has developed a master spread sheet showing all current activity relating to the on-going work so far along with example letter from the butchers who supply meat to the Residential homes.

CURRENT UPDATE

The Strategic Procurement Department has undertaken extensive checks with Denbighshire CC suppliers and other National organisations to enable collation of the relevant information contained within this report to present to the Food Review and Task Finish Group. All suppliers used by Denbighshire within the food supply chain have been contacted by letter, email and phone call to ask for statements on their testing results. All of these have now been received stating that **no horse DNA has been found following sampling in various product ranges.**

Information has also been received from FSA, TUCO, STS, WLGA, Red Tractor farm assured, British poultry Council and Hybu Cig Cymru.

POTENTIAL ISSUES IDENTIFIED

- Fragmented Catering responsibilities. No designated Catering Category Manager in post at present providing effective contract management.
- No immediate traceability facility from deliveries back to source of batch and reference codes.
- At present there is only one audit undertaken by STS annually with suppliers within the TUCO framework agreement. In light of recent events, is this sufficient?
- TUCO are not forthcoming in sharing complaints, issues, supplier updates and audits conducted by STS to a central point in Denbighshire. Catering services receive some information on an ad hoc basis but are not informed of any change in supply chain supplier or replacement product.

- Catering Services for schools specify in their contract with TUCO that all meat & poultry must be British. Can we guarantee we are using British meat & poultry following evidence that we are sourcing a product from Germany
- Individual service areas are working in isolation and are not sharing information regarding all aspects of food purchasing, complaints and issues. There is no centralised point collating the information for review by interested parties. This has led to breakdown in performance and increased exposure to risk.
- There is limited control on which suppliers service areas are authorised to use. There is no centralised control for the authorisation of orders.
- Insufficient supplier audits are being carried out by DCC or its representatives. A Right of Audit Clause within the contract would enable unannounced checks with suppliers.
- Social Services butchers spend £26,000 per year. This is not formally tendered.
- Communication between service areas and procurement needs to be improved and formalised. Currently, there are no regular reviews or meetings apart from the Procurement Department and Food health & Safety working on the Pennington Inquiry.

Position Statement: Review of Regulation of Food Controls

Public Protection has 3 important responsibilities when it comes to regulation of the food industry:

- to check the standards of hygiene in all food related premises (i.e. a public health function within the Environmental Health profession)
- to monitor that food sold within the County is correctly labelled and its origin can be traced (i.e. a food standards function within the Trading Standards profession)
- to monitor farms, slaughter houses and markets for animal movements and animal welfare (i.e. animal health/licensing function within the Trading Standards profession)

These responsibilities involve all types of food related businesses including farms food manufacturers, supermarkets, cafes, restaurants, private care homes etc.

These responsibilities also include our own Council premises serving food, such as schools and residential care homes.

In exercising these responsibilities Officers work closely with the Food Standards Agency Wales (FSA).

Officers who carry out these responsibilities need to meet specific competency requirements as set out and required by the FSA.

The horse meat incident was primarily a food standards/animal licensing matter, i.e. the regulatory control of meat from the “farm to the fork”.

We have approximately 1200 food related premises within the county, some of which are food manufacturers that supply and distribute their food products nationally and internationally e.g Patchwork Pate, Henllan Bread, Wholebake, Llandyrnog Creamery, etc.

Following the departure of our qualified and competent food standards officer some 2 years ago we agreed a collaboration project with Conwy CBC, where a qualified Officer would work for 1 day per week in Denbighshire to undertake a limited amount of food standards work, including sampling, inspections of high risk premises and complaints. At the same time we have been training one of our younger trading standards officers to specialise in food standards. That Officer should become qualified in food standards work within the next 12 months. Given various pressures the collaboration arrangements with Conwy CBC ceased at the end of March this year. In addition we have approximately 1,000 registered farms. Animal Licensing/Health Officers have enforcement responsibilities for the farm to abattoir chain and visit farms, markets and associated premises to check on transportation and traceability of animals. Included in their inspection remit on farms is the food and feed hygiene obligations for farmers - this being the beginnings of the food chain. They have a pivotal role in capturing and auditing movement information.

The team currently operate with 2.6 FTE enforcement officers and 1.2 FTE support officers, predominantly paid for by a grant received direct from WG (i.e. not part of the RSG structure,

the grant being a response to the Foot and Mouth outbreak in 2001). The WG grant has been significantly reduced in recent years, resulting in savings from within the service budget being redirected to support the team. Given budget pressures this will not be sustainable as further reductions in the WG grant are forecasted.

While not directly linked to the horsemeat scandal, the food hygiene function is an important responsibility in the monitoring of the food industry and the safety of the public. The team are able to maintain a 100% inspection regime of high risk food premises, but many of the lower risk premises are not being inspected as regularly as Officers would like and important none regulatory work, such as providing support/advice to the food industry, organising best practice seminars for food proprietors etc. is not being done.

Position Statement: Review of Social Services functions, particularly external care homes

As part of the investigation into food procurement, Adult Services have been asked to explain the current situation with commissioning and monitoring of care home placements with the independent sector in respect of food procurement.

Denbighshire County Council commission residential accommodation with 55 care homes in Denbighshire and a further 63 out of county - 38 in Wales, 25 elsewhere. The homes in Denbighshire have a total of 1389 beds, an average of 25 beds per home. However, only 500 of those beds are commissioned by Denbighshire, just over 35%. The balance is either used by other local authorities, by health or privately by self-funders.

All care homes in Wales are registered by CSSIW. They are annually inspected against minimum standards. Those reports are publically available and are used as part of contract monitoring.

Care homes have signed a contract with Denbighshire and will imminently be signing a regional contract - agreed across the 6 local authorities in North Wales and BCUHB. Monitoring of that contract is carried out by two Contract Officers in Denbighshire and the process followed is being developed and agreed regionally.

NUTRITION

There are no specific nutrition standards required of care homes either from a regulation perspective or contractually. The expectations are, however, that residents' nutritional needs are met.

CSSIW REGULATION AND MONITORING

The minimum standards expected of care homes in respect of food include the following:

- Nutritional screening is undertaken on admission and re-assessed periodically; a record is maintained of nutrition, including weight gain or loss, and appropriate action is taken.
- Service users receive a wholesome, appealing, balanced diet in pleasing surroundings at times convenient to them
- Staff are employed in sufficient numbers to ensure that standards relating to food, meals, nutrition are fully met, and that the home is maintained in a clean and hygienic state, free from dirt and unpleasant odours.

The CSSIW inspections tend to be very person orientated; they look at what residents think of their food, how much choice they have and whether they are enjoying it. They usually visit at meal times to witness the choice and satisfaction.

In addition to this they look at food hygiene, the standard of cleanliness in all food preparation and eating areas. They also look at food storage in terms of hygiene and sufficiency.

CONTRACT MONITORING

Our contract with providers does not duplicate the CSSIW standards; it requires providers to comply with those standards and with all appropriate legislation and regulation.

Our monitoring visits also look at choice and satisfaction of residents and at food storage and preparation. Providers are asked where food is purchased but that has, to date, been about quantity and quality of food available for residents and not to do with food provenance.

Environment colleagues carry out inspections at care homes and award 'scores on the doors' as with any food preparation business. This information is taken into account during contract monitoring and is also considered by CSSIW when they inspect. Health and Safety colleagues also carry out monitoring visits, providing care homes with advice and reports showing any areas of concern including hygiene issues.

All inspection and monitoring reports are taken into account when contract monitoring is carried out. To date, none of these have ever dealt with food provenance.

Neither regulation nor our contracts allow us to dictate where food is purchased. As previously stated, the question is asked and, for the most part, people are shopping locally and buying fresh produce. Some providers also buy ready-made food from local supermarkets.

ACTIVITY UNDERTAKEN SINCE THE RECENT SCANDAL

A letter has been sent out to all care home providers asking that they ensure that they have processes in place to satisfy themselves that any food products supplied to them do not contain horse DNA. That letter did not require a response but some providers have responded. They have advised that they use local butchers and buy fresh produce.

ADDITIONAL COMMENTS REGARDING IN-HOUSE SERVICES

Over the last 18 months there has been a close working relationship with the Procurement Unit with regards to suppliers, in terms of their suitability, cost effectiveness and the quality of the products purchased. Officers also work closely with Environmental Health to seek advice and guidance with regards to food procurement and health and safety matters.

Since the recent concerns regarding contamination of Horse DNA in some foods and the food chain, officers have taken even more precautions especially in terms of best practice to ensure, as far as is practicable, that the risks to our service users of eating food items that may be contaminated are reduced. Examples of this are:-

- **Work with Procurement** - ensuring written confirmation of traceability from each supplier of at risk foods (meat/meat derivatives). A joint visit was undertaken with the Procurement Officer to Popty to discuss their catering operation.
- **In consultation with our Contracts Officer** we have strengthened the temporary contract with the food provider for meals to day-care by inserting a clause in the contract as follows:-

“Denbighshire continuously monitor the quality of food, and request that given the recent concerns regarding contamination of Horse DNA in foods, the Provider must contact Denbighshire prior to any proposed changes to their food suppliers. Failure to do so may result in termination of this contract. Where individual items of food are identified as contaminated, then this item, any other foods which

contain this item, should be removed from the menu. Confirmation of this will be sought by that day centre.”

- ➔ **Apetito is a food supplier of frozen meats to our Day Centres.** In addition to receiving confirmation of traceability from this supplier they also advised that they had DNA tested over 100 of their meat products and all were clear. On this basis managers were asked to ensure only items off this list were offered to service users (who are involved in choosing the menu).
- ➔ **In addition to receiving written confirmation from the Butcher** who supplies us fresh meat, an officer visited their premises to check their records of traceability; these appeared to be in good order on that visit.

Brief Role Descriptor – Food Standards Officer

This person would be qualified and competent to undertake the following duties:

- Inspection of High Risk Food Businesses
- Responding to complaints and enquires in relation to food labelling and origin matters.
- Supporting businesses by providing advice and guidance to businesses on labelling their products.
- Being a point of contact with the Food Standards Agency in relation to food standards matters.
- Act as a point of contact for other enforcement agencies for issues identified relating to Denbighshire businesses
- Conduct food sampling projects to ascertain legislative compliance, for example meat content of meat products, correct labelling of food, correct description of food and origin.
- Undertake a degree of audit work to support corporate colleagues e.g. sampling products within schools or residential care homes and tracing the products back to source to ensure that we are getting what we are requesting.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	30/07/2013
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Y Cyng. David Smith/Graham Boase
Awdur yr Adroddiad :	Graham Boase
Teitl:	Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Diben yr adroddiad hwn yw darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ynglŷn â'r cynnydd gyda'r Adeilad Rhestredig pwysig yma, derbyn cefnogaeth ar gyfer cyflwyno Gorchymyn Prynu Gorfodol ar gyfer y safle ac i dderbyn cefnogaeth swyddogion i wneud cynnig i brynu'r adeilad.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Cyflwynwyd yr adroddiad diwethaf i'r Cabinet ym mis Hydref 2012 ac ers hynny mae cynnydd aruthrol wedi ei wneud gyda'r prosiect hwn. Mae angen diweddarau'r Cabinet ac egluro'r sefyllfa ddiweddaraf, derbyn cefnogaeth ar gyfer cyflwyno Gorchymyn Prynu Gorfodol ac amlinellu'r risgiau cyffredinol ynghlwm wrth gyflwyno Gorchymyn Prynu Gorfodol. O ystyried cymhlethdod y safle, argymhellir, os yw'r Cyngor yn llwyddiannus gyda'r Gorchymyn Prynu Gorfodol neu gyda'r cynnig i brynu'r safle, y dylai'r Cabinet rhoi awdurdodiad pellach cyn meddiannu'r safle ffurfiol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir:

- Bod y Cabinet yn cefnogi cyflwyno Gorchymyn Prynu Gorfodol ac yn argymhell bod y Pwyllgor Cynllunio hefyd yn awdurdodi hyn.
- Bod y Cabinet yn rhoi cefnogaeth i Swyddogion wneud cynnig i brynu'r safle yn seiliedig ar ymateb y Prisiwr annibynnol a ffactorau materol eraill.
- Y dylid, cyn prynu'r safle'n ffurfiol, drwy Orchymyn Prynu Gorfodol neu drwy drafodaethau, derbyn awdurdodiad pellach gan y Cabinet.

4. Manylion am yr adroddiad

- 4.1 Ym mis Hydref 2010 bu i'r Cabinet awdurdodi cyflwyno Rhybudd Gwaith Brys a gorfodi cwblhau'r Gwaith Brys yn ddiodyn os na chydymffurfiwyd â'r Rhybudd. Cyflwynwyd y rhybudd ar 6 Mehefin 2012. Ni fu i'r perchennog ymateb o fewn y terfyn amser a nodwyd ac felly gofynnwyd i gontractwr arbenigol fynd i mewn i'r safle a chychwyn y gwaith. Yr adeilad a dargedwyd oedd yr adeilad cam un gwreiddiol a godwyd rhwng 1846 ac 1848, sef rhan bwysicaf yr adeilad o safbwynt hanesyddol a phensaernïol. Roedd y gwaith yn

cynnwys tynnu asbestos, tynnu'r holl brennau fframwaith oherwydd eu bod wedi pydru a bron â dymchwel, a chodi to dros dro. Canfuwyd bod yr adeilad mewn gwaeth gyflwr nag y ragweld ond llwyddodd y contractwr, dan amgylchiadau anodd o ran iechyd a diogelwch, i gwblhau'r gwaith erbyn mis Awst 2012. Bu i'r gwaith costio bron i £900 mil.

- 4.2 Mae pump Gorchymyn Adran 55 wedi eu cyflwyno i'r perchnogion o ran costau'r gwaith brys a wnaethpwyd yn ddiodyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod dau o'r apeliadau yn annilys. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi cadarnhau y dylid ymdrin â'r tair apêl ddilys yn ysgrifenedig. Mae ar y Cyngor bellach angen penderfynu ar y ffordd ymlaen o ran y ddau orchymyn lle nad yw'r apeliadau yn ddilys a darparu datganiadau i'r Arolygiaeth Gynllunio yn ymwneud â'r tair apêl ddilys. Mae'n annhebygol iawn y bydd y perchennog yn talu gan mai cwmni alltraeth yw'r perchennog. Ond mae'r posibilrwydd o roi ffioedd ar y tir os ydym ni'n llwyddo i fynd â'r ôl y ddyled yn ddewis sy'n werth ei ystyried.
- 4.3 Ym mis Medi 2010 bu i'r Cabinet hefyd gefnogi creu Cerbyd Un Pwrpas, ar ffurf mudiad nid-er-elw, i feddiannu'r safle gan Gyngor Sir Ddinbych os yw'r Awdurdod yn llwyddo i brynu'r safle, o wirfodd y perchennog neu drwy orfodi. Mae'r mudiad bellach wedi ei greu, gyda chymorth Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog, a'i enw yw Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladu Gogledd Cymru. Mae Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladu Gogledd Cymru wedi gwneud cais i ddod yn fudiad elusennol, ac mae'n ymrwymedig i atgyweirio'r safle.
